


Adroddiad Blynyddol

2004-2005



Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru I gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chyrtsiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau addysg bellach Cymru. O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn Gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil I wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon. Sefydlwyd y Cyngor ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

Confensiynau

Defnyddir y confensiwn canlynol wrth ddynodi blwyddyn ariannol y Cyngor a'r flwyddyn academiaidd:

Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill hyd 31 Mawrth) 2004-05
Blwyddyn Academiaidd (1 Awst hyd 31 Gorffennaf) 2004/05

Copiâu ychwanegol

Gellir cael copiâu ychwanegol o'r adroddiad hwn gan:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn: 029 276 1861

Ffacs: 029 2076 3163

E-bost: info@hefcw.ac.uk

Neu gellir llwytho copiâu PDF o'r adroddiad i lawr o wefan y Cyngor yn www.hefcw.ac.uk.

Hawlfraint CCAUC 2006

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sydd biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd at elw masnachol.

Cynnwys

Cenhadaeth a Nodau'r Cyngor	01
Adroddiad y Cadeirydd	02
Datganiad y Prif Weithredwr	04
Y Sector Addysg Uwch yng Nhgymru 2004/05	06
Cyllido'r Sector Addysg Uwch	10
Ymgynraedd yn Ehangach	15
Y 'Fargen i Fyfyryr'	16
Ymchwil Ragorol	18
Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas	20
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	22
Gwneud iddi weithio	24
Busnes y Cyngor	26
Aelodau'r Cyngor	29
Perfformiad yn erbyn tasgau yn llythyr cylich gwaith 2004-05	32
Cynnydd tuag at gyrraedd targedau <i>Ymgeisio'n Uwch</i>	39
Datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005	42

Cenhadaeth y Cyngor

Ein cenhadaeth yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, defnyddiwn gyllid a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Ymgynraedd yn Ehangach:

sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi

Y 'Fargen i Fyfyrrwyr':

sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf

Ymchwil Ragorol:

sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

Bod o fudd i'r economi a Chymdeithas:

sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon:

cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel

Gwneud iddi Weithio:

A) Y sector AU yng Nghymru - pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd

B) CCAUC

bob yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy:

- feddu ar y gallu a'r isadeiledd angenrheidiol i'n galluogi i weithio'n effeithiol yn fewnol a chyd'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru)
- bob yn ddewis deniadol fel cyflogwr

Adroddiad y Cadeirydd

Galluogodd ein setliad ariannol ar gyfer 2004-05 i ni gynnal adnoddau ar gyfer addysgu am y flwyddyn academaidd 2004/05 mewn termau real ar eu lefel 2003/04, ac i gefnogi rhywfaint o dwf hefyd mewn lleoedd amser llawn i fyfyrwyr.

At ei gilydd, rhoddodd grantiau'r Cyngor ar gyfer 2004/05 gynnydd termau real ar gyllid 2003/04 i wyth o'n 13 o sefydliadau addysg uwch (SAUau) gyda'r pump arall yn cael eu grantiau wedi'u cynnal mewn termau real ar lefelau 2003/04. Derbyniodd pob SAU gynnydd cyfartalog yn eu grant o 3.3%.

Roeddwn yn falch bod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cydnabod ymrwymiad y sector i themâu allweddol ei strategaeth Ymestyn yn Uwch trwy ddarparu cyllid atodol o £10 miliwn i gefnogi'r ddau faes blaenoriaeth, sef ailgyflunio a chydweithio (£8 miliwn) ac ehangu mynediad (£2 filiwn).

Dyrannom y cyllid £2 filiwn ychwanegol gan y Cynulliad ar gyfer ehangu mynediad i gefnogi gwaith ein pedair partneriaeth ranbarthol *Ymestyn yn Ehangach*, y mae eu prosiectau gydag ysgolion a grwpiau cymunedol mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn helpu i wneud addysg uwch yn ddewis realistig i lawer mwy o bobl.

Roedd cyhoeddiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mehefin 2004 yn cadarnhau ymrwymiad parhaus y Cynulliad i ganlyn ailgyflunio a chydweithio yn y sector. Y mis canlynol, cyhoeddodd Gam 2 ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio, sydd wedi'i chynllunio i ailffurfio'r sector AU yng Nghymru mewn modd a fydd yn cynyddu'r gallu i

gystadlu ac yn gwella perfformiad fwy fyth yn y dyfodol. Roedd cyfanswm y Gronfa yn £8 miliwn yn 2004-05, sef cynnydd o draean ar y flwyddyn flaenorol.

Roeddem yn hynod falch eleni i ddefnyddio ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio i gefnogi uno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Gyda chymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad, darparom grant o £15 miliwn i gyllido'r broses gyfuno ac i gefnogi cynlluniau ymchwil y sefydliad newydd, a hefyd cynigiom grant ad-daladwy potensial o hyd at £8 miliwn i hwyluso llif arian. Cyfunodd y ddau sefydliad yn ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2004. Rydym yn edrych ymlaen at weld Prifysgol Caerdydd ar ei newydd wedd yn dod â manteision mawr i Gymru, yn enwedig wrth ddatblygu addysgu ac ymchwil o safon gyda'r gorau yn y byd.

Cefnogom hefyd resymoli'r cyrsiau nyrsio, cyfraith ac addysg a gynigir gan Brifysgol Cymru Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe, ac archwilio cydweithredu agosach rhwng Prifysgol Cymru, Bangor ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Hefyd roeddem yn gallu darparu £2.9m, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, i gefnogi cynllun arloesol a chydweithredol i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru, yn cael ei gweinyddu gan y Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg.

Gan barhau â'r thema ailgyflunio a chydweithio, comisiynwyd adolygiad archwilio gennym o'r rhesymau dros fethiant y trafodaethau cyfuno rhwng Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cyhoeddodd ein bod wedi comisiynu'r Athro Syr Ron Cooke, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Efrog, a'r Athro John Bull, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Plymouth, i gynnal adolygiad o ddyfodol sefydliadau addysg uwch ôl-92 yn Ne Ddwyrain Cymru.

Hoffwn dynnu sylw at ychydig o gyflawniadau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad eleni oedd yr ail yn y cylch chwe blynedd o adolygiadau sefydliadol yn cael eu cynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o dan y fframwaith sicrhau ansawdd newydd. Fel rhan o'r trefniadau newydd hyn, cefnogom ddatblygu gwefan newydd Gwybodaeth am Ansawdd Addysgu a fydd yn rhoi ystod o wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr am SAUau y DU. Gweithiom hefyd gyda'n chwaer gynghorau cyllido ar Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol newydd a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2005.

Gan fod yn ymwybodol o'r angen cynyddol i ganolbwyntio cymorth i adrannau ymchwil sydd yn y lle gorau i ennill mantais gystadleuol, penderfynom y byddai ein grant seiliedig ar ansawdd ar gyfer ymchwil, o flwyddyn academiaidd 2004/05, ar gael i adrannau gradd 5*, 5 a 4 yn unig. Ar yr un pryd, cyflwynom Gronfa Buddsoddi Ymchwil o £4 miliwn i gefnogi strategaethau ymchwil SAUau. Yn dilyn ymarferiad ymgynghori manwl, daethom i gytundeb ar y cyd â'n chwaer gyrff cyllido AU yn y DU ar y newidiadau i'w cyflwyno i drefniadau ar gyfer yr Ymarfer Asesu Ymchwil nesaf yn 2008, a dechreuom baratoi ar ei gyfer.

Cyflwynom ffrwd gyllido barhaol wedi'i neilltuo i gefnogi gweithgareddau 'trydedd genhadaeth' sefydliadau - hynny yw, gweithgareddau sy'n ymwneud â rôl allweddol y sector i hyrwyddo datblygiad economaidd a lles cymdeithasol a diwylliannol. Cyfanswm ein Cronfa Trydedd Genhadaeth oedd £3.1 miliwn yn 2004/5 a bydd yn cynyddu i £6.1 miliwn erbyn 2007/08.

Dechreusom broses newydd, ffurfiol eleni o gynnal 'Deialog Strategol' gydag Addysg Uwch Cymru a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru. Hefyd, cychwynnom raglen o ymweliadau ffurfiol â sefydliadau gan y Cyngor. Bydd y datblygiadau hyn yn ein helpu i ymgysylltu'n

llawnach â'r sector a sefydliadau unigol, ac yn cyfrannu hefyd at ein sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad am faterion sydd o bwys i addysg uwch yng Nghymru.

Cafwyd newidiadau yn aelodaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Ffarweliwyd â Perminder Dhillon, aelod o'r Cyngor, ac rwy'n diolch yn ddiffuant iddi am ei chyfraniadau i'r Cyngor, a chefais innau fy ail-benodi yn Gadeirydd am yr un cyfnod. Mae cael bod yn y rôl hon yn parhau i roi boddhad mawr i mi ar adeg gyda'r mwyaf cyffrous yn hanes cyfan addysg uwch yng Nghymru. Cred y Cyngor ei fod, gyda chefnogaeth y Cynulliad, wedi cael cryn lwyddiant o ran cryfhau'r sector yng Nghymru, ond nid yw dan unrhyw gamagraff ynghylch faint sydd ar ôl i'r Cyngor a chyrrff llywodraethol sefydliadau i'w wneud i sicrhau gwireddu holl nodau'r Cynulliad ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

Yn olaf, ar ran y Cyngor, hoffwn ddiolch i holl staff CCAUC am eu gwaith a'u cefnogaeth barhaus yn ystod y flwyddyn.

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae gweithgareddau ehangu mynediad yn parhau i fod yn brif ffocws, ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r sector mewn sefyllfa dda iawn i gyrraedd targed *Ymestyn yn Uwch* 2010/11, sef 11.4% o'r holl israddedigion amser llawn a rhan-amser newydd ar gyrsiau AU yn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach y DU sydd â'u cartrefi yng Nghymru yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru, gyda ffigurau 2002/03 ar 10%. Hefyd, mae dangosyddion perfformiad blynyddol y DU yn parhau i ddangos perfformiad cryf gan y sector Cymreig o ran recriwtio myfyrwyr o gefndiroedd lle nad oes traddodiad o fynd i addysg uwch.

Mae cynnydd cyson yn cael ei wneud hefyd o ran cynyddu cyfran y myfyrwyr amser llawn sydd â'u cartrefi yng Nghymru sy'n dewis astudio yn SAUau Cymru. Yn 2002/03 roedd y ffigur ar gyfer y sector ar 62.6%, ac mae hynny'n argoeli'n dda ar gyfer cyrraedd targed 2010/11, sef 66%. Mewn perthynas â'r targed ar gyfer myfyrwyr tramor, mae'r sector Cymreig wedi llwyddo i aros ychydig ar y blaen i weddill y DU¹ o ran twf o flwyddyn i flwyddyn mewn recriwtio myfyrwyr tramor.

Ar ôl llwyddiant cynnar da o ran cynyddu'r nifer blynyddol o gwmnïau deilliedig proffidiol, dangosodd ffigurau 2002/03 gwmp mawr. Credwn y gallai hyn fod yn ganlyniad anghymell ymgysylltiad academaidd â gweithgarwch deilliedig yng nghyd-destun Deddf Ariannol 2003. Mae gennym reswm i gredu y bydd gweithgarwch deilliedig AU yn dechrau codi eto mewn blynyddoedd i ddod, ac yn rhoi'r sector mewn lle da i gyflawni'r targed *Ymestyn yn Uwch*, sef 42 o gwmnïau deilliedig proffidiol yn flynyddol erbyn 2010/11. Hefyd, mae'n werth nodi'r canfyddiadau o'r Arolwg Rhyngweithiad

Busnes Addysg Uwch diweddaraf ar gyfer y flwyddyn academaidd 2003/04, sy'n dangos Cymru'n cyfrif am 9% o'r cyfanswm incwm ar gyfer y DU o ymchwil gydweithredol yn ymwneud â chyllid cyhoeddus a busnes, 11% o incwm y DU gyfan o wasanaethau ymgynghori AU, a thros 9.5% o gyllid i SAUau y DU o raglenni adfywio a datblygu. Hefyd, sefydlodd SAUau Cymru 17 o gwmnïau deilliedig newydd a phedwar cwmni newydd yn cael eu cychwyn gan staff – dros 12% o gyfanswm y DU – ac roeddent yn cyfrif am 14% o'r holl raddedigion yn cychwyn busnes yn y DU.

Cwblhawyd cyfnod cyntaf ein rhaglen Cyfleoedd i Raddedigion Cymru (GO Wales) ar ddiwedd 2004-05. Dros y flwyddyn, mae GO Wales wedi helpu dros 11,000 o fyfyrwyr a graddedigion seiliedig yng Nghymru i ddod o hyd i hyfforddiant neu swyddi, gan fod o fudd i ryw 1,500 o gwmnïau drwy wneud hynny.

Bydd targedau eraill *Ymestyn yn Uwch* yn gofyn am ymdrech gan bawb ar draws y sector er mwyn eu cyrraedd. Rydym wedi ymrwmo i ehangu addysgu cyfrwng Cymraeg, ond mae targed Llywodraeth y Cynulliad yn un heriol. Dangosodd ffigurau 2002/03 bod 3.2% o fyfyrwyr yn gwneud rhyw elfen o'u cwrs AU trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gadael cryn bellter i'w deithio eto i gyrraedd yr uchelgais yn *Ymestyn yn Uwch* i gynyddu hyn i 7% erbyn 2010/11. Rydym wedi datblygu strategaeth genedlaethol newydd ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i arwain defnyddio adnoddau yn y modd gorau a chyflawni cynnydd nodedig mewn darpariaeth. Mae camau pendant wedi cynnwys cefnogi Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg, ffocws strategol parhaus ein Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, a defnyddio'n Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio i gefnogi prosiect

¹ Ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain

cydweithredol, yn cael ei arwain gan y Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AU.

O ran ymchwil, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau incwm ar gyfer ymchwil o ffynonellau ar wahân i CCAUC, yn enwedig mewn perthynas â chyllid gan y Cynghorau Ymchwil. Er mwyn cynorthwyo'r sector yn y gwaith hwn, cychwynnom raglen o seminarau i roi arweiniad ar sicrhau grantiau gan y Cynghorau Ymchwil. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i weld sut y gellir gwneud cynnydd pellach, nid lleiaf drwy ymchwil sylweddol ar y cyd.

Mae ailgyflunio a chydweithio o fewn y sector yn parhau'n un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yn ei strategaeth *Ymestyn yn Uwch*. Atgyfnerthwyd y neges hon gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes pan gyflwynodd Gam Dau o *Ymestyn yn Uwch* ym mis Mehefin 2004. Ymatebodd y Cyngor, ym mis Gorffennaf, drwy gyhoeddi ail gam ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Byddwn yn bwrw ymlaen yn egniol â thrafodaethau ag Is-Gangellorion a Phrifathrawon a'u staff uwch ar gynigion penodol sy'n gyson â'r cydweithio sylweddol, cynaliadwy a strwythurol gydlynol a geisir gan y Gweinidog. Rydym hefyd wedi adolygu ein gweithdrefnau yn sgil yr adroddiad archwilio a gomisiynwyd gennym i fethiant y trafodaethau cyfuno rhwng Prifysgol Morgannwg ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Mae addysg uwch yng Nghymru yn rhan o farchnad y DU a rhyngwladol ehangach ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae pwysau cystadleuol yn dwysáu'r heriau sy'n wynebu'r sector, yn enwedig mewn perthynas ag effaith ffioedd dysgu amrywiol sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr o'r flwyddyn academaidd 2006/07, a phenderfyniadau cysylltiedig yng Nghymru yn

dilyn Adolygiad Rees, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar y trefniadau cymorth ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru a sut y dylai'r Cynulliad ddefnyddio ei bwerau newydd mewn perthynas â ffioedd dysgu prifysgolion.

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen i'r sefydliadau fod mewn iechyd ariannol ardderchog. Roeddem yn falch o weld gwelliant yn iechyd ariannol y sector yn ystod y flwyddyn yn nhermau maint y gwarged gweithredol. Serch hynny, ni allwn fforddio llaesu dwylo, gan fod y gwarged gweithredol yn y mwyafrif o sefydliadau'n aros yn isel yn nhermau cynhyrchu arian ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein prosesau monitro ariannol i nodi anawsterau potensial neu wirioneddol cyn gynted ag y bo modd.

Buom yn gwneud newidiadau i'n trefniadaeth fewnol yng ngoleuni Adolygiad Rawlings a chytundeb y Cynulliad i'r cynnig a roddwyd gerbron gan CCAUC a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant y dylent wahanu'u gweithredoedd yn llwyr.

Mae'n dda gennyf adrodd i ni lwyddo i gyflawni mwyafrif llethol o'r gweithredoedd yn ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2004-05. Mae nifer fach o weithgareddau yn dal i fynd rhagddynt a/neu wedi cael eu cario ymlaen i 2005-06. Hoffwn ddiolch i staff Uned Weithredol fach CCAUC am eu hymrwymiad diflino a'u gwaith caled, sydd wedi gwneud hyn yn bosibl.

Y Sector AU yng Nghymru 2004/05

Yn 2004/05 roedd tri ar ddeg o sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru yn derbyn cyllid gan y Cyngor: Prifysgol Morgannwg, pedwar o golegau ac athrofeydd addysg uwch, a chwe sefydliad cyfansoddol a dau goleg Prifysgol Cymru.

Gellir dilyn rhai cyrsiau addysg uwch, yn enwedig cyrsiau diploma nid-gradd, mewn sefydliadau addysg bellach (SABau). Darperir y cyrsiau hyn drwy drefniadau ffranseis gyda sefydliad addysg uwch fel rheol, er ein bod yn cyllido peth darpariaeth yn uniongyrchol mewn SABau hefyd.

Dengys ystadegau a gasglwyd yn yr hydref 2004 fod 115,288 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan

y Cyngor. Roedd 99,296 o'r cofrestriadau'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Cyngor.

Amrywiai maint sefydliadau yn y sector o oddeutu 25,600 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd¹ i oddeutu 590 yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Prifysgol Caerdydd oedd â'r nifer fwyaf o fyfyrwyr amser llawn. Prifysgol Morgannwg oedd yn cynnig y nifer fwyaf o gyrsiau rhan-amser i israddedigion; a Phrifysgol Cymru, Casnewydd oedd â'r ddarpariaeth ran-amser fwyaf mewn colegau addysg bellach drwy drefniadau ffranseis.

Roedd myfyrwyr hefyd yng Nghymru wedi'u cofrestru ar gyrsiau'r Brifysgol Agored, sy'n derbyn cyllid yng Nghymru gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE).

Cofrestriadau yn ôl Statws Ffi, Lefel a Modd 2004/05

		Cofrestriadau Amser-llawn	Cofrestriadau Rhyngosod	Cofrestriadau Rhan-amser	Cyfanswm Cofrestriadau
Cartref a CE cyllidawdy	Israddedigion	48,641	670	32,815	82,126
	Israddedigion nid gradd	3,331	44	0	3,375
	Ôl-radd a addysgir	4,250	0	7,186	11,436
	Ymchwil ôl-radd	1,509	0	852	2,361
	Cyfanswm	57,729	714	40,853	99,296
Cartref a CE anghyllidawdy	Israddedigion	4,822	3	1,911	6,735
	Israddedigion nid gradd	860	0	0	860
	Ôl-radd a addysgir	118	0	140	258
	Ymchwil ôl-radd	101	0	107	208
	Cyfanswm	5,900	3	2,158	8,060
Overseas (includes Channel Islands and Isle of Man)	Israddedigion	2,865	26	1,019	3,910
	Israddedigion nid gradd	211	0	0	211
	Ôl-radd a addysgir	2,388	0	572	2,960
	Ymchwil ôl-radd	685	0	167	852
	Cyfanswm	6,148	26	1,758	7,932
Cyfanswm	69,776	743	44,769	115,288	

¹ Cynhaliodd Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygol Prifysgol Cymru eu gweithgareddau ar y cyd o 1 Awst 2004, gan gyfuno'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2004. Casglwyd data ar gofrestriadau yn y ddau sefydliad ar y cyd o dan yr enw Prifysgol Caerdydd.

Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) 04/05 Cofrestriadau yn ôl lefel a modd

Israddedigion	Amser-llawn/Rhyngosod	57,026
Israddedigion nid gradd	Amser-llawn/Rhyngosod	4,445
Israddedigion	Rhan-amser	35,745
Ôl-radd a addysgir	Amser-llawn/Rhyngosod	6,755
	Rhan-amser	7,898
Ymchwil ôl-radd	Amser-llawn/Rhyngosod	2,294
	Rhan-amser	1,126

Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) 04/05 Cofrestriadau yn ôl lefel

Israddedigion	97,215
Ôl-radd a addysgir	14,653
Ymchwil ôl-radd	3,420

Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) 04/05 Cofrestriadau yn ôl modd

Amser-llawn	69,776
Rhyngosod	743
RA Arall	39,423
RA IR ffranseis	5,346

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2004/05

Nodiadau: (1) Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1

(2) Cynhwysir cofrestriadau cyllidawdy, anghyllidawdy, tramor ac ynysydd

(3) Mae ffranseis yn cynnwys israddedigion rhan-amser yn unig


(4) Mae Israddedigion Rhan-Amser yn cynnwys cofrestriadau gradd a nid gradd

(5) Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu


Cofrestrïadau yn ôl Sefydliad, Lefel a Modd 2004/05

	Israddedigion gradd		Israddedigion nid gradd		Israddedigion (IR)		Ôl-radd a addysgir			Ymchwil Ôl-radd			
	Amser-llawn	Rhyngosod	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser (heb gynwys IR ffranseis)	Rhan-amser (IR ffranseis)	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Cyfanswm
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,586	0	148	0	2,470	2,171	259	0	940	29	0	2	8,605
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru	2,079	0	336	0	2,704	1,036	41	0	247	26	0	21	6,490
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,244	70	619	2	1,135	152	853	0	434	63	0	87	8,659
Prifysgol Morgannwg	7,770	136	1,453	0	6,444	1,857	943	0	1,842	195	0	239	20,878
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	2,073	18	688	0	1,514	0	494	0	393	8	0	32	5,220
Coleg y Drindod Caerfyrddin	1,210	0	0	0	669	0	154	0	114	0	0	0	2,147
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	758	0	99	0	2,872	23	123	0	407	94	0	114	4,490
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	5,849	96	91	42	2,141	17	653	0	733	221	0	48	9,891
Prifysgol Cymru, Bangor	5,011	41	323	0	1,610	90	725	0	539	306	0	120	8,765
Prifysgol Caerdydd	15,416	237	0	0	4,991	0	1,891	0	1,830	951	0	317	25,633
Prifysgol Cymru Abertawe	7,646	101	316	0	3,027	0	570	0	369	401	0	146	12,576
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	466	0	28	0	0	0	49	0	50	0	0	0	593
Coleg Pen-y-bont	0	0	18	0	7	0	0	0	0	0	0	0	25
Coleg Sir Gâr	188	0	23	0	98	0	0	0	0	0	0	0	309
Coleg Llandrillo	32	0	134	0	646	0	0	0	0	0	0	0	812
Coleg Morgannwg	0	0	102	0	15	0	0	0	0	0	0	0	117
Coleg Abertawe	0	0	9	0	10	0	0	0	0	0	0	0	19
Coleg Menai	0	0	0	0	17	0	0	0	0	0	0	0	17
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	15	0	29	0	0	0	0	0	0	0	44
Cyfanswm	56,327	699	4,401	44	30,399	5,346	6,755	0	7,898	2,294	0	1,126	115,288


COFRESTRYADAU YN ÔL LEFEL A MODD



COFRESTRYADAU YN ÔL LEFEL



COFRESTRYADAU YN ÔL MODD



Cyllido

Yn 2004-05, cyfanswm ein cymorth grant oedd £372.3m, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni rheolaidd o £335m, £10m uwchlaw'r cyllid sylfaenol i gefnogi amcanion Ymestyn yn Uwch, cyllid cyfalaf o £25.4m, a chostau rhedeg o £1.9m. Rydym yn derbyn ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail blwyddyn ariannol (BAr) (1 Ebrill i 31 Mawrth) ond dyrannwn y rhan fwyaf o'n harian ar sail blwyddyn academiaidd (BAc) (1 Awst i 31 Gorffennaf).

Roedd y setliad yn ein galluogi i gyhoeddi dyraniadau cyllid fformiwla i'r sector o £333.4 miliwn ar gyfer addysgu, ymchwil a hyfforddiant ymchwil ôl-radd yn y flwyddyn academiaidd 2004/05. Gwelodd 8 o 13 SAU y sector gynnydd termau real yn eu grantiau ar gyfer 2003/04; cynhaliwyd grantiau'r pump arall mewn termau real. Mewn termau arian parod, y cynnydd cyfartalog ar grantiau 2003/04 oedd 3.4%.

Cadwom yr adnodd ar gyfer addysgu mewn termau real ar lefelau 2003/04, a chefnogi twf o 1.7% mewn lleoedd amser llawn i fyfyrwyr i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru am faint y sector. Roedd y cynnydd yn cynnwys y mewnlif cyntaf o 35 o fyfyrwyr i'r cwrs Meddygol Mynediad Graddedigion yn yr Ysgol Glinigol newydd ym Mhrifysgol Cymru Abertawe.

Cadwyd y 'premiwm', neu daliadau ychwanegol, ar gyfer ehangu mynediad a chynorthwyo myfyrwyr anabl ar lefelau o £200 am bob myfyriwr a oedd yn gymwys ar gyfer ehangu mynediad a £200 am bob myfyriwr a oedd yn gymwys ar gyfer cymorth anabled.

Cadwom hefyd yr adnodd ar gyfer pob ymchwil gradd 5*, 5 a 4, ac ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd, mewn termau real. Hyd at 2004/05 roedd CCAUC wedi bod ar ei ben ei hun ymhlith Cynghorau Cyllido AU y DU o ran

ymestyn cyllid i bob ymchwil gradd 3 yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2001. O 2004/05 cyhoeddom y byddai ein grant seiliedig ar ansawdd ar gyfer ymchwil ar gael i adrannau gradd 5*, 5 a 4 yn unig. Fodd bynnag, yn ategol at y cyllid ansawdd ar gyfer ymchwil, cyflwynom Gronfa Buddsoddi Ymchwil newydd eleni o £4.1miliwn at ddefnydd strategol gan SAUau fel y gwelont yn dda (er enghraifft, i ddod ag ymchwil sy'n datblygu yn ei blaen, gwella cryfder meysydd ymchwil presennol, neu ailffurfio'u portffolio ymchwil).

Cyfanswm y dyraniadau fformiwla ar gyfer 2004/05 oedd £246m ar gyfer addysgu, £61.5m ar gyfer ymchwil a £4.9m ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd. Cyhoeddom hefyd ddyraniadau'r Gronfa Trydedd Genhadaeth o £3.1m. Cyfanswm y dyraniadau cyllid fformiwla ar y cyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2004/05 oedd £320.9m.

Mae strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ymestyn yn Uwch*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002, yn nodi y byddai codiadau blwyddyn ar flwyddyn yn ein grant creiddiol yn cadw o fewn chwyddiant ond y byddai cyllid atodol ar gael ar sail 'rhywbeth am rywbeth', ar yr amod bod y sector yn dangos ymrwymiad i'r strategaeth a'i dwy flaenoriaeth, sef ailgyflunio ac ehangu mynediad. Roedd perfformiad y sector yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymrwymo cyllid atodol o £10m i gefnogi'r blaenoriaethau hyn yn *Ymestyn yn Uwch* - £8m ar gyfer ailgyflunio a chydweithio, a £2m ar gyfer ehangu mynediad.


Roedd darpariaeth ddifformiwla yn cynnwys cymorth ar gyfer cynlluniau addysgu ac ymchwil penodol, amrywiaeth o fesurau i gynorthwyo myfyrwyr, a rhaglenni i ehangu mynediad i addysg uwch. Mewn nifer o feysydd hysbyswyd y sefydliadau o'u dyraniadau a rhyddhawyd y cyllid ar ôl derbyn cynlluniau derbynol.

Cyfrannom hefyd at fentrau ar y cyd â'n chwaer gynghorau cyllido yn y DU. Roedd y rhain yn cynnwys PROC-HE, sy'n helpu sefydliadau i sicrhau'r gwerth gorau ym maes caffael; y Cyd-grŵp Llywio Costio a Phrisio sy'n helpu'r sector i gyflwyno ymagwedd agored at gostio a chostio llawn; y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC), sy'n darparu'r cyd-rwydwaith academiaidd (JANET); ac amrywiaeth o wasanaethau rhwydwaith a gwasanaethau cymorth.

Mae ein cymorth grant yn cynnwys cyllid cyfalaf wedi'i glustnodi i hybu datblygiadau is-strwythur ar gyfer ymchwil ac ar gyfer dysgu, addysgu a TG. O'r £25.4m a oedd ar gael yn 2004-05, targedwyd £9.6m i gynorthwyo datblygiadau cyfalaf i alluogi sefydliadau AU i

gydymffurfio â deddfwriaeth anabledd (er enghraifft, i wneud addasiadau i adeiladau neu waith arall ar yr ystadau, neu i brynu cyfarpar arbennig, gan gynnwys cyfarpar TG, i wneud cyrsiau yn hygyrch i fyfyrwyr anabl).


Mae SAUau Cymru wedi elwa hefyd o ail rownd y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol ('SRIF 2'), prif raglen fuddsoddi mewn isadeiledd ffisegol ar gyfer ymchwil yn cael ei hariannu ar y cyd gan y pedwar Corff Cyllido Addysg Uwch yn y DU a'r Swyddfa Gwyddoniaeth ac Arloesedd (yr hen Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg (OST)). Cyllid SRIF 2 ar gyfer sector AU Cymru dros y ddwy flwyddyn ariannol 2004-05 a 2005-06 yw £46.8m, £21.5m ohono'n cael ei ddarparu gan CCAUC.



Cyllid CCAUC ar gyfer y flwyddyn 2004/05

GRANT RHEOLAIDD	Gwariant hyd fis Gorffennaf 2005 (£)
Grant ar gyfer Addysgu	
Prif grant fformiwlâ	237,914,872
Y pen	4,200,860
Premiwm ehangu mynediad	2,611,600
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,130,432
Premiwm anabledau	497,000
	CYFANSWM 246,354,764
Grantiau'n Gysylltiedig ag Addysgu	
Ehangu mynediad	1,649,366
Strategaethau addysgu a dysgu	1,850,000
Cyfrwng Cymraeg (Cronfa, Uned a Chynlluniau Arbennig)	437,370
Cynlluniau Arbennig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	75,000
Strategaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	1,013,330
Ad-dalu ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS	305,459
Heggor ffioedd rhan-amser	1,000,000
E-Brifysgol	300,000
	CYFANSWM 6,630,525
Cynllun Pensiwn Athrawon	2,400,000
Grantiau ar gyfer Ymchwil	
Grant seiliedig ar Ymarfer Asesu Ymchwil (QR)	57,393,091
Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil (RIF)	4,140,959
Cynlluniau – gan gynnwys y Gronfa Datblygu Gallu Ymchwil, Bwrdd Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau, y Cynllun Gwobrau i Fyfirwyr Ymchwil Tramor a Bwrdd a Gwasg Prifysgol Cymru	5,382,062
	CYFANSWM 66,916,112
Grant ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd	4,946,021
Grantiau Trydedd Genhadaeth	
Cronfa Trydedd Genhadaeth	3,128,070
Cynlluniau Cyflogaeth Graddedigion	1,735,000
	4,863,070
Grantiau y tu allan i'r Brif Ffrwd	
yn cynnwys – y Rhwydwaith Cymorth Dysgu ac Addysgu, y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth, rhaglenni Sicrhau Ansawdd AU, cyllid ar gyfer anabledau	4,061,063
Cyllid Strategaeth AU (dyraniad ar sail BAr wedi'i throsi'n BAc)	
Ailgyflunio a Chydweithio (mae'n cynnwys cyllid a glustnodwyd gan y Cynulliad a chyllid o grant cychwynnol y Cyngor)	9,666,666
Ymgynraedd yn Ehangach	1,950,000
	11,616,666
Atodiad yn Gysylltiedig â CMC	600,522
CYFANSWM CYLLID RHEOLAIDD	348,388,743
CYFALAF (dyraniad ar sail BAr wedi'i throsi'n BAc)	
yn cynnwys is-strwythur ar gyfer ymchwil ac addysgu a dysgu	18,396,000
	CYFANSWM TERFYNOL 366,784,743

Dyraniadau Eraill 2004/05



Dyraniadau Cyllid Fformiwla 2004/05

Sefydliad	Cyfanswm Cyllid Fformiwla ar gyfer Addysgu	Ymchwil (QR) a (RIF)	Dyraniadau'r Gronfa Trydedd Genhadaeth	Ymchwil Ôl-radd	Atodiad yn Gysylltiedig â CMC	Cyfanswm*
	£	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	38,462,932	1,800,884	217,884	398,156	0	40,879,856
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	22,414,885	5,878,032	272,442	420,444	277,069	29,262,872
Prifysgol Cymru, Bangor	20,883,063	7,713,964	392,398	500,872	219,389	29,709,686
Prifysgol Caerdydd**	45,791,492	28,343,444	1,047,245	1,416,636	0	76,598,817
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	4,192,750	1,178,884	60,928	77,792	42,458	5,552,812
Prifysgol Cymru Abertawe	23,516,955	8,313,605	537,662	900,192	6,936	33,275,350
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru**	12,219,403	6,347,510	0	1,130,345	0	19,697,258
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	22,450,010	1,121,114	193,710	41,820	0	23,806,654
Prifysgol Cymru, Casnewydd	16,610,523	399,797	145,463	26,164	0	17,181,947
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru	13,369,870	120,202	60,928	27,616	0	13,578,616
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	13,140,190	81,218	77,553	5,984	0	13,304,945
Coleg y Drindod Caerfyrddin	5,077,617	0	60,928	0	54,671	5,193,216
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	4,910,043	0	60,928	0	0	4,970,971
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	0	235,392	0	0	0	235,392
Coleg Sir Gâr	1,078,153	0	0	0	0	1,078,153
Coleg Llandrillo	1,276,071	0	0	0	0	1,276,071
Coleg Abertawe	105,721	0	0	0	0	105,721
Coleg Castell-nedd Port Talbot	140,436	0	0	0	0	140,436
Coleg Pen-y-bont	89,603	0	0	0	0	89,603
Coleg Morgannwg	537,127	0	0	0	0	537,127
Coleg Menai	75,128	0	0	0	0	75,128
CYFANSWM	246,341,975	61,534,045	3,128,069	4,946,018	600,523	316,550,631

*Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

**Cafodd y dyraniadau ar gyfer Prifysgol Caerdydd a CMPC eu gwneud cyn i'r sefydliadau gyfuno'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2004

Ymgynraedd yn Ehangach

Ymestyn yn Uwch – Ymgynraedd yn Ehangach

Mae sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru yn parhau i weithio'n agos i roi addysg uwch o fewn cyrraedd rhagor o bobl yng Nghymru.

Mae ein cynllun Ymestyn yn Uwch – *Ymgynraedd yn Ehangach*, sydd wedi bod yn rhedeg er 2003, wedi cefnogi pedair partneriaeth AU/AB yn cwmpasu Gogledd Cymru, Gorllewin a Chanolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru, ac mae pob SAU Cymru yn gysylltiedig. Mae'r partneriaethau'n gweithredu prosiectau arloesol a graddfa fawr gyda'r nod o ehangu mynediad i addysg uwch, gan ganolbwyntio'u hymdrechion ar rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Hefyd, maent yn gweithio gyda phobl sy'n dymuno astudio yn Gymraeg, pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eraill a phobl anabl.

Mae'r fenter *Ymgynraedd yn Ehangach* yn ymateb i'r targedau ar gyfer ehangu mynediad a geir yn strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Ymestyn yn Uwch*. Mae'n darparu rhaglenni o gymorth a sgiliau ar gyfer pobl o bob oedran a holl adrannau'r gymuned sydd â'r potensial i lwyddo mewn coleg neu brifysgol, ond nad oes ganddynt y sgiliau, yr hyder na'r dyhead i wneud cais.

Yn 2004/05 cyhoeddom gyllid ychwanegol am ail flwyddyn, yn gwneud cyfanswm o £1.95m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r fenter. Roedd hon yn gefnogaeth gadarnhaol i gyflawniadau'r fenter yn ei blwyddyn gyntaf, a galluogodd y pedair partneriaeth Gymreig i barhau i ddatblygu'u gwaith.

Cefnogi SAUau i Ehangu Mynediad

Gweithredom Gronfa Ehangu Mynediad, yn gyfanswm o £1.6 miliwn yn 2004/05, i helpu'r

sefydliadau i weithredu strategaethau ehangu mynediad. Cydnabuom hefyd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw myfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol drwy gynnwys cyllid 'premiwm' ar gyfer ehangu mynediad yn ein dyraniadau cyllid fformiwla i SAUau (cyfanswm o £2.6m yn 2004/05).

Dangosodd Dangosyddion Perfformiad y DU mewn Addysg Uwch fod Cymru yn gyffredinol wedi parhau i ragori ar y DU gyfan o ran ehangu cyfranogiad i addysg uwch:

- Roedd Cymru'n fwy llwyddiannus o ran recriwtio myfyrwyr israddedig ifanc amser llawn o ysgolion y wladwriaeth, grwpiau economaidd gymdeithasol is a chymdogaethau â chyfranogiad isel mewn AU; a
- Recriwtiodd y sector AU yng Nghymru ganran uwch o israddedigion hŷn, amser llawn o gefndir cyfranogiad isel a heb unrhyw brofiad blaenorol o AU.

Cymorth Ariannol i Fyfrwyr

Mae trefniadau yn eu lle i gynnig cymorth i fyfrwyr, a'r nod yw ehangu mynediad i addysg uwch. Mae gan y Cyngor gynllun 'hepgor ffioedd' sy'n helpu israddedigion rhan-amser sy'n derbyn budd-daliadau neu sydd ar incwm isel. Cafodd ffioedd o dros £400k eu hepgor yn 2004/05, a bu 1,295 o fyfrwyr ar eu hennill. Rydym hefyd yn gweinyddu'r Gronfa Wrth Gefn Ariannol ar ran Llywodraeth y Cynulliad, sy'n helpu myfyrwyr sy'n cael trafferth cwrdd â'u costau byw.

Cymorth i Fyfrwyr Anabl

Mae'r Cyngor eisiau i SAUau ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer myfyrwyr anabl a bodloni gofynion y ddeddfwriaeth anabled. Rydym yn cydnabod y costau

ychwanegol y gall SAUau eu cael wrth ddarparu ar gyfer myfyrwyr anabl trwy gynnwys taliadau premiwm yn ein dyraniadau cyllid fformiwla blynyddol, a oedd bron yn £500K yn 2004/05. Gofynnwn i SAUau ddarparu cynlluniau parhaus ar gyfer gwario'u cyllid premiwm anabledd ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer myfyrwyr anabl.

Hefyd, cyhoeddom gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2004-05, yn gwneud cyfanswm o £9.6m, i helpu sefydliadau AU i fodloni'r ddeddfwriaeth anabledd. Defnyddiwyd y cyllid i addasu adeiladau a gwaith ystâd arall i ddarparu mynediad a chyfleusterau i fyfyrwyr anabl, ac i brynu cyfarpar arbenigol.

Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru

Gwnaeth CCAUC, ELWa ac ACCAC, gan weithio gyda'r sector addysg, gynnydd mawr tuag at ddatblygu Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Pwrpas hwn yw galluogi dysgwyr i grynhoi credyd ar gyfer eu hastudiaeth yn ôl amserlen sy'n cwrdd â'u gofynion gydol eu bywyd. Cynhaliodd Cyngor Socrates Erasmus y DU, ynghyd â FfCChC a CCAUC, gynhadledd fawr ym mis Mehefin 2005 i drafod goblygiadau proses Bologna i Gymru, gan gynnwys datblygiadau credyd. Roedd Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bresennol.

Y 'Fargen i Fyfyrrwyr'

Hybu Rhagoriaeth

Mae addysgu rhagorol a phrofiad dysgu o safon uchel i fyfyrwyr yn parhau'n nodau allweddol addysg uwch yng Nghymru.

2004/05 oedd ail flwyddyn y cylch chwe blynedd o Adolygiadau Sefydliadol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) o dan y fframwaith sicrhau ansawdd a safonau newydd. Mae'r fframwaith yn helpu sicrhau profiad o safon uchel i fyfyrwyr tra'n osgoi baich gweinyddol diangen ar SAUau.

Hefyd, cynhaliodd y QAA amrywiaeth o weithgareddau i gynorthwyo'r broses Adolygu Sefydliadol yng Nghymru. Roeddent yn cynnwys rhoi cymorth i sefydliadau i baratoi ar gyfer adolygiad, arweiniad penodol i fyfyrwyr sy'n paratoi eu cyflwyniadau ysgrifenedig a gweithio gyda Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Sefydlodd ASA 'Dîm Cymru' hefyd i helpu'r llif gwybodaeth rhwng CCAUC, y QAA a'r sector yng Nghymru.

Mae'r fframwaith newydd yn gofyn i SAUau gyhoeddi gwybodaeth wedi'i rheoleiddio am ansawdd a safonau. Yng ngolwg hynny, parhaom i weithio gyda chyrrff cyllido AU eraill y DU a HERO (Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil) Ltd. i ddatblygu gwefan sy'n cyhoeddi gwybodaeth ar ffurf hwylus i fyfyrwyr. Mae'r wefan Gwybodaeth am Ansawdd Addysgu (TQi) yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i ddarpar fyfyrwyr am addysg uwch yn y DU. Yn 2004-05 cynhaliodd CCAUC ddigwyddiad, mewn partneriaeth â HERO, am y wefan TQi a'r modd gorau i SAUau gyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain i fyfyrwyr.

Un o elfennau hanfodol y broses sicrhau ansawdd yw adborth gan fyfyrwyr:

- Buom yn gweithio gyda'r QAA ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru i helpu sicrhau rôl gryfach i fyfyrwyr o ran sicrhau bod eu haddysg o'r safon uchaf; a
- Bu'r cyrrff cyllido yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr, arolwg o foddhad myfyrwyr blwyddyn olaf ar

draws rhan fwyaf o'r DU. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf yng ngwanwyn 2005 ac mae'r canlyniadau bellach wedi'u cyhoeddi ar y wefan Gwybodaeth am Ansawdd Addysgu, gan gyfrannu at y cyflenwad o wybodaeth ddefnyddiol i fyfyrwyr.

Fel rhan o'n hymrwymiad i hybu arfer gorau, rydym yn cefnogi'r Academi Addysg Uwch – corff newydd y DU gyfan sy'n gyfrifol am wella dysgu ac addysgu mewn AU – a lanswyd ym mis Hydref 2004. Darparwyd cyllid i'r Academi AU yn 2004/05 i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar hyd y DU, fel:

- datblygu fframwaith o safonau addysgu proffesiynol;
- hyfforddiant cychwynnol staff;
- cryfhau'r system arholwyr allanol; a
- chydweithio â'r Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) ar ddatblygu Porth ar gyfer y gymuned dysgu ac addysgu.

Hefyd, darparwyd cyllid gennym ni a'n partneriaid i helpu gyda'r costau o redeg yr Academi a'i 24 o Ganolfannau Pwnc.

Anogwn SAUau i hybu addysgu rhagorol a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr yn barhaus trwy Gronfa Dysgu ac Addysgu CCAUC.

Trwy'r gronfa, dyma a wnaethom:

- Gwneud £800K ar gael i gefnogi Strategaethau Dysgu ac Addysgu SAUau;
- Gwneud £102K ychwanegol ar gael i dalu tanysgrifiadau sefydliadau Cymru i'r Academi Addysg Uwch; a
- Chomisiynu'r Academi AU i ddarparu adborth i SAUau ar eu strategaethau ar gyfer dysgu ac addysgu, i'w ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer datblygu gweithgareddau thematig a gwella pwnc yng Nghymru.

Yn 2004/05 cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein hadroddiad a gomisiynwyd i KPMG a werthusodd y ddarpariaeth AU mewn sefydliadau addysg

bellach – AU mewn AB. O ganlyniad, cytunodd ein Cyngor y dylai AU mewn AB gael ei datblygu yn y dyfodol trwy lwybr ffranseis; o ganlyniad, cyhoeddom y byddem yn paratoi arweiniad arfer gorau ar drefniadau ffranseis.

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg: Ymagwedd Strategol

Erbyn 2010, dylai 7 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru fod yn cymryd rhyw elfen o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma'r targed heriol a osodwyd ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ymestyn yn Uwch, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch.

Cefnogom bump o Gymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2004/05, yn dilyn y ddwy gymrodoriaeth a ddyfarnwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Gymrodoriaethau'n helpu cynyddu nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ehangu felly'r dewisiadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae'r rheiny y dyfernir Cymrodoriaethau iddynt yn datblygu cyrsiau newydd yn eu maes pwnc a chânt eu hannog i hybu cydweithredu rhwng sefydliadau.

Parhaom gyda ffocws strategol ein Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, gan roi dros £200k i'r tri sefydliad â'r lefelau uchaf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr (PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, yn ogystal â dyraniad llai i UWIC). Mae'r cyllid yn eu helpu i ehangu eu portffolios cyfrwng Cymraeg, gwella recriwtio ac ymchwilio i'r potensial ar gyfer datblygiadau ar y cyd. Dyrannom gyllid hefyd i Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg PC – a elwir bellach y Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg – i gynorthwyo datblygiadau ar draws y sector AU.

Mae'r Ganolfan o fewn Prifysgol Cymru ond gweithia ar ran pob un o'r SAUau yng Nghymru. Fe wnaeth sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer

darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, sy'n cynnwys aelodaeth o'r sector, ein Cyngor a'r Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, chwarae rhan hanfodol o ran paratoi strategaeth genedlaethol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Ar ôl ymgynghori ar y strategaeth ddrafft yn haf 2004, cyflwynwyd y fersiwn derfynol i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Hydref 2004.

Ym mis Hydref 2004, cyhoeddodd y Gweinidog gyllid o £2.9m ar gyfer cynllun arloesol a chydweithredol i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru trwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC. Mae'r cynllun tair blynedd, sy'n cael ei weinyddu gan y Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys dwy elfen – cynllun

Cymrodoriaeth Addysgu Ôl-ddoethuriaeth, sy'n adeiladu ar gynllun cynharach CCAUC, a chynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ôl-radd. Bydd y penodiadau hyn yn helpu cynyddu'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ac maent yn rhan annatod o'r strategaeth a ddatblygwyd gan y Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

Cawsom drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'r sector hefyd ar weithredu agweddau eraill ar y strategaeth, fel datblygu staff a marchnata a hybu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Arweiniodd y rhain at gynigion llwyddiannus i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn haf 2005 ar gyfer asesiad o fodolau potensial ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol a gwella'r cymorth y mae'r Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg yn ei roi i'r sector.

Ymchwil Ragorol

Asesu a Chyllido Ymchwil o Ansawdd

Mae Ymchwil o Ansawdd (QR) yn cyfrif am ran fwyaf ein cyllid ar gyfer ymchwil, ac fe'i dosberthir drwy fformiwla gan ddefnyddio canlyniadau'r Ymarferion Asesu Ymchwil (YAY) a gynhelir o bryd i'w gilydd ar hyd a lled y DU.

Daeth y dyraniadau QR, ynghyd â'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil newydd, i gyfanswm o ryw £61.5m yn 2004/05 ac fe'u seiliwyd ar ganlyniadau yr YAY diwethaf yn 2001. Y dyraniadau hyn yw'r cyfraniad unigol mwyaf at gyllid ymchwil yng Nghymru o hyd.

Roeddem o'r farn bod angen addasu ein dull cyllido ymchwil ar gyfer 2004/05. Roeddem yn ymwybodol bod cyllid ymchwil mewn rhannau

eraill o'r DU yn cael ei roi yn gynyddol i'r adrannau ymchwil â'r graddau uchaf yn unig, gan roi mantais gystadleuol bosibl iddynt.

Er mwyn targedu'r cyllid a oedd ar gael yn y dull mwyaf effeithiol a sicrhau bod cymorth i ymchwil â'r graddau uchaf yng Nghymru yn parhau'n gystadleuol, cytunom y byddai cyllid QR, o 2004/05, yn cael ei ddarparu i adrannau â graddau 5*, 5 a 4 yn unig. Ar yr un adeg ag y rhoesom y gorau i ddarparu QR i adrannau 3a a 3b, sefydlom Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil hefyd (RIF) i SAUau ei defnyddio mewn ffordd hyblyg i gefnogi eu strategaethau ymchwil. Mae'r trefniadau newydd wedi helpu i ddiogelu rhagoriaeth a'r gallu i gystadlu mewn adrannau 5* a 5, i gynnal dynamiaeth mewn adrannau 4, ac i helpu SAUau i ddatblygu eu strategaethau ymchwil.

Mae'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil, a oedd yn gyfanswm o £4.1m yn 2004/05, wedi galluogi SAUau i fuddsoddi'n strategol i gefnogi'u polisi ymchwil trwy, er enghraifft, hybu ymchwil ddatblygol, gwella cryfderau ymchwil presennol ac ailffurfio'u proffil ymchwil.

Ynghyd â chyrrff cyllido AU eraill y DU, mae angen i ni sicrhau bod yr YAY nesaf yn broses mor llawn a theg â phosibl ar gyfer asesu'r ymchwil a wneir yn SAUau y DU. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr ac ymgynghori eang, daethom i gytundeb ar y cyd ar gyfer newidiadau i'r trefniadau a dechrau paratoi ar gyfer yr YAY nesaf yn 2008, a oedd yn cynnwys cytuno cyfraniad blynyddol yn y blynyddoedd yn arwain i fyny at yr ymarferiad. Cytunodd pob un ohonom y byddai'r YAY yn cynhyrchu proffiliau yn dangos y cyfrannau o waith mewn adran sy'n cyrraedd pob un o bedair lefel o ansawdd; bydd y rhain yn cymryd lle'r raddfa saith pwynt a ddefnyddiwyd mewn ymarferion blaenorol.

Un pryder a nodwyd gennym yn 2004/05 oedd y modd yr oedd y duedd flaenorol tuag i fyny yng nghyfran y sector AU o'r cyfanswm incwm ymchwil wedi dechrau lefelu. Byddai angen monitro hyn yn fanwl yng nghyd-destun targedau Ymchwil *Ymestyn yn Uwch* 2010 ar gyfer incwm ymchwil.

Y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol (SRIF)

Mae buddsoddi yn yr is-strwythur ffisegol ar gyfer ymchwil – adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar – yn hanfodol er mwyn gwneud ymchwil o'r radd flaenaf, yn enwedig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Gwelodd 2004-05 y taliadau cyntaf o ail rownd o Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol (SRIF2) y DU a grëwyd i alluogi'r sector i fuddsoddi yn y cyfarpar a'r cyfleusterau ymchwil diweddaraf. Ar gyfer SRIF2, unwaith eto cyfunodd y Cyngor ei

gyllid cyfalaf ar gyfer ymchwil â dyraniad o £21.5m gan y Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg (OST – OSI bellach) i greu cronfa gyfan o £46.7m ar gyfer 2004-05 a 2005-06. Roedd cymorth i brosiectau'n cynnwys:

- adeiladau newydd ar gyfer ymchwil mewn gwleidyddiaeth ryngwladol a gwyddorau amgylcheddol;
- cyfleusterau ar gyfer ymchwil delweddu biofeddygol; a
- chyfleusterau stiwdio ymchwil ar gyfer celf, y cyfryngau a dylunio.

Yn 2004-05, cyhoeddwyd hefyd y byddai SAUau Cymru yn derbyn £46.5 miliwn dros y ddwy flwyddyn ariannol 2006-07 a 2007-08 trwy drydedd rownd y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol (SRIF3) i gefnogi buddsoddi pellach yn yr isadeiledd ymchwil. Golygai hyn y byddem, o'r cyfanswm cyllid SRIF3 ar gyfer Cymru, yn darparu £21.5 miliwn i SAUau Cymru yn ychwanegol at £25 miliwn gan yr OST. Bydd hyn yn dod â chyfanswm buddsoddiad SRIF yng Nghymru ers 2002 i £128.6 miliwn.

Adeiladu Gallu Ymchwil er Lles Cymru

Mae ein Cronfa Datblygu Gallu Ymchwil yn adeiladu gallu ymchwil mewn meysydd sydd o bwys i economi, diwylliant a chymdeithas Cymru. Mae'r gronfa'n annog sefydliadau i weithio gyda'i gilydd ar fentrau ymchwil. Rhwng 2002/03 a 2004/05, cefnogom wyth o brosiectau cydweithredol â gwerth o ryw £8.5 miliwn. Roedd y prosiectau'n cynnwys gwaith i gyfrannu at bolisi cyhoeddus ar faterion iechyd a chymdeithasol a gwaith ar ddatblygiadau ym meysydd nanotechnoleg a'r biowyddorau.

Rhaglenni Gradd Ymchwil Ôl-radd

Mae'n dra hysbys mai ymchwilwyr dan hyfforddiant – myfyrwyr ymchwil ôl-radd SAUau – yw dyfodol y sylfaen ymchwil. I sicrhau

bod y myfyrwyr hyn yn cael hyfforddiant o'r radd flaenaf, ymunom â chynghorau cyllido eraill y DU i ddatblygu safonau trothwy ar gyfer rhaglenni gradd ymchwil ôl-radd (YOR) a fframwaith arfer da cysylltiedig. Penderfynwyd yn derfynol ar y safonau ar ôl ymgynghori â'r sector ac mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi eu cynnwys yn ei chod ymarfer diwygiedig ar gyfer YOR, i ffurfio rhan o'i phroses Adolygu Sefydliadol barhaus.

Datblygiadau Ewropeaidd

Buom yn gweithio gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru a Swyddogion Cyswllt Ewropeaidd Cymru o bump SAU yng Nghymru i gyd-gynnal y digwyddiad o'r enw *Sustainability in Europe – Regional Solutions through European Research*. Ei nod oedd codi proffil addysg uwch Cymru yn Ewrop ac annog cysylltiadau rhwng y sector a phartneriaid potensial yn Ewrop. Denodd y digwyddiad, ar 1 Mawrth 2005, dros 100 o gynrychiolwyr o ledled Ewrop, gan gynnwys swyddogion y Comisiwn, Is-Gangellorion ac ASEau.

Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas

Cyllido Trydedd Genhadaeth

Gweithgareddau trydedd genhadaeth mewn SAUau yw'r rheiny sy'n hybu cymhwyso gwybodaeth ac elwa arni er lles datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

Ar ben cynhyrchu 20,000 o raddedigion newydd a 7,000 o ôl-raddedigion bob blwyddyn, mae sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn cyfrannu dros £1 biliwn y flwyddyn mewn gwariant gross i economi Cymru.

Cyflawniad sylweddol yn ystod y flwyddyn oedd datblygu llif parhaol newydd o gyllid CCAUC ar gyfer gweithgareddau trydedd genhadaeth i sefyll ochr yn ochr â'n cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil. Ym mis Mehefin 2004, gofynnwyd i SAUau gyflwyno strategaethau am y cyfnod 2004/05 i 2006/07 i gefnogi'r Gronfa Trydedd Genhadaeth newydd a chynhaliom weithdy ar gyfer sefydliadau ym mis Gorffennaf 2004 i helpu

sicrhau y byddent yn defnyddio'r cyllid mewn ffyrdd a fyddai o fudd i AU ac economi Cymru.

Mae'r Gronfa Trydedd Genhadaeth yn cydnabod gwerth y gwaith a wneir gan y sector i hybu lles cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal â'i gyfraniad at ddatblygiad economaidd. Mae'r Gronfa – o £3.1m yn 2004 ond sydd i gynyddu i £6.1m erbyn 2007/08 – yn helpu SAUau i fabwysiadu ymagwedd strategol ar draws yr ystod lawn o weithgareddau trydedd genhadaeth ac yn gymorth i sicrhau cyllid o ffynonellau eraill.

Gan adlewyrchu natur amrywiol y sector yng Nghymru, mae rhai SAUau yn gweithredu ar lwyfan rhyngwladol, tra bod eraill yn canolbwyntio'u gweithgareddau yn llawer mwy lleol. Mae cryfderau mewn dysgu ac addysgu yn helpu'r sefydliadau hynny sydd â ffocws mwy lleol i ymgysylltu â'r economi a chymdeithas, tra bod arbenigedd ymchwil yn helpu SAUau eraill i

weithredu'n rhyngwladol. Mae sefydliadau yn chwaraewyr allweddol hefyd mewn datblygiadau diwylliannol a chymunedol ar draws Cymru.

Wrth ddatblygu'r Gronfa, ystyriom argymhellion Adroddiad Nexus Llywodraeth y Cynulliad ar rôl y sector AU mewn datblygiad economaidd, a chanlyniadau dau adolygiad mawr o weithgareddau trydedd genhadaeth SAUau y DU - *Review of Business-University Collaboration* gan Richard Lambert ac *Innovation Report: Competing in the Global Economy* gan yr Arglwydd Sainsbury.

Mae aelodau ein Pwyllgor Trydedd Genhadaeth, sy'n goruchwyllo'r maes hwn o weithgarwch CCAUC, yn cynrychioli'r sector AU yng Nghymru, yn ogystal â busnes a phartneriaid sector cyhoeddus 'Tîm Cymru' CCAUC. Un o brif orchwylion y Pwyllgor yn 2004/05 oedd ystyried canlyniadau'r dadansoddiad o strategaethau trydedd genhadaeth cyntaf sefydliadau. Mae trosolwg o waith y Pwyllgor Trydedd Genhadaeth yn adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor.

Agendâu ar y Cyd

Wrth geisio cynyddu cyfraniad y sector AU at yr economi gwybodaeth yng Nghymru, parhawn i weithio'n agos â phartneriaid strategol ac rydym yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r trefniadau gweithio ar y cyd a geisir gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn 2004-05 ymatebon i Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd diweddaraf y Cynulliad ar gyfer Cymru (SEAP 2) a dechreusom drosglwyddo'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF) i'r WDA, sydd bellach yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch a Busnes a Chymunedol blynyddol y DU (HEBCIS) yn olrhain cyfraniad y sector AU i les economaidd a chymdeithasol. Dengys arolwg 2005, sy'n cynnwys y flwyddyn academiaidd 2003/04, bod SAUau Cymru'n parhau i ragori ar eu pwysoliad 5% nominal o weithgarwch AU mewn nifer o feysydd

allweddol, a'u bod yn gwella mewn meysydd allweddol eraill. Er enghraifft:

- Cynyddodd SAUau yng Nghymru eu hincwm contract ymgynghori ymchwil o 18% ar y flwyddyn flaenorol, gan gyfrif am dros 11% - oddeutu £24m - o incwm y DU gyfan o wasanaethau ymgynghori AU;
- Helpodd y sector AU yng Nghymru i greu busnesau newydd yn 2003/04, gan gynnwys 17 o gwmnïau deilliedig newydd a phedwar cwmni'n cael eu cychwyn gan staff. Amcangyfrifir bod y trosiant o'r holl gwmnïau deilliedig gweithredol yng Nghymru oddeutu £25m;
- Cynyddodd nifer y busnesau newydd gan raddedigion yng Nghymru o 5%, gan gyfrif am dros 14% o gyfanswm busnesau newydd gan raddedigion ar draws y DU;
- Roedd incwm o ymchwil gydweithredol yn ymwneud â chyllid cyhoeddus a busnes i fyny o 20%, gan gyfrif am 9.9% o gyfanswm incwm y DU; a
- Chynyddodd SAUau yng Nghymru eu cyfanswm o drwyddedau a roddwyd o 16 i 79 ac yn 2003/04 roeddent yn cyfrif am 7.5% o holl drwyddedau meddalwedd y DU.

Cam Cyntaf Llwyddiannus i GO Wales

Daeth cam cyntaf ein Rhaglen Cyfleoedd i Raddedigion Cymru - GO Wales - i ben ym mis Mawrth 2005. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn bartneriaeth gyda phob un o'r deuddeg SAU yng Nghymru. Mae'r rhaglen hon yn helpu myfyrwyr a graddedigion seiliedig yng Nghymru i ddod o hyd i hyfforddiant neu swyddi yng Nghymru, ac mae'n annog busnesau Cymreig, a busnesau bach a chanolig yn benodol, i ddefnyddio graddedigion i fodloni'u hanghenion sgiliau lefel uchel. Mae'r rhaglen yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys lleoliadau â chymhorthdal, seiliedig ar brosiect, mewn busnesau bach a chanolig, cymorth ariannol i

raddedigion mewn busnesau bach a chanolig i gefnogi'u hyfforddiant a'u datblygiad, a chyfnodau byr o brofiad gwaith - blas ar waith - i helpu myfyrwyr a graddedigion i gael gwybod mwy am y gyrfaeodd sydd o ddi-ddordeb iddynt. Hefyd, mae myfyrwyr a graddedigion yn cael gwybodaeth a chynghor am weithio yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnig cymwysiadau ar-lein, fel dyddiadur myfyriol a gwasanaeth arweiniad e-bost trwy gowales.co.uk.

Yng ngham cyntaf y rhaglen:

- elwodd dros 11,000 o fyfyrwyr a graddedigion a 1,500 o gwmnïau ohoni;
- cafodd dros 1,600 o fyfyrwyr a graddedigion leoliadau gyda busnesau bach a chanolig;
- canfu oddeutu 60% o raddedigion a gafodd eu lleoli bod eu lleoliad wedi arwain at gyflogaeth gyda'u sefydliad cynnal neu sefydliad arall;

- cefnogwyd 600 o raddedigion mewn busnesau bach a chanolig yn eu hyfforddiant a'u datblygiad; a
- hysbysebodd 2,000 o gwmnïau eu swyddi gwag achlysurol i fyfyrwyr trwy GO Wales.

Addysg Feddygol

Yn dilyn ein rhan mewn trafodaethau â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cynlluniau ar gyfer ysgolion clinigol yn Abertawe, Bangor a Chasnewydd, roeddem yn falch o weld 35 o fyfyrwyr meddygol yn cofrestru ym Mhrifysgol Cymru Abertawe ym mis Medi 2004, ar y rhaglen garlam newydd ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd. Parhawn i gyfrannu at waith Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Meddygol cynghorau cyllido y DU, sy'n cydlynu ymagweddau at addysg ac ymchwil feddygol ar draws y DU.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)

Rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu athrawon newydd o'r safon uchaf.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyrraedd y targedau recriwtio a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ar y lefel gynradd a'r lefel uwchradd. Roedd perfformiad yn erbyn targedau yn 2004/05 fel a ganlyn:

Targed:

1,150 o gofrestriadau newydd ar gyfer hyfforddiant cyfnod cynradd a 1,320 ar gyfer hyfforddiant cyfnod uwchradd (883 ohonynt mewn pynciau prinder uwchradd).

Canlyniad:

1,207 o gofrestriadau newydd ar gyfer hyfforddiant cyfnod cynradd a 1,171 o gofrestriadau newydd ar gyfer hyfforddiant cyfnod uwchradd (776 yn gysylltiedig â phynciau prinder uwchradd).

Rydym wedi parhau i gymryd mesurau i wella recriwtio uwchradd, yn enwedig mewn meysydd pwnc lle mae prinder ac rydym wedi cynnal ymdrechion ariannol ac ymdrechion eraill i reoli gor-recriwtio i ddarpariaeth gynradd.

Cyllid Strategol Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Lluniwyd Cronfa Strategol HCA i hybu ymagwedd fwy strategol mewn dwy ffordd: drwy gymryd i ystyriaeth flaenoriaethau HCA CCAUC, Estyn a Llywodraeth y Cynulliad, a thrwy roi mwy o annibyniaeth iddynt gynllunio yn y maes hwn. Dyfarnwyd dros £700 mil drwy'r Gronfa yn 2004/05, yr ail flwyddyn y cyllidwyd y cynlluniau tair blynedd.

Nododd sefydliadau amrywiaeth eang o weithgareddau cydweithredol yn eu strategaethau. Roeddent yn canolbwyntio ar gynyddu recriwtio i feysydd pwnc prinder uwchradd, yn enwedig o'r grwpiau a dangynrychiolir, gan gynnwys hyfforddeion o grwpiau ethnig pobl dduon a lleiafrifol. Roeddent yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r agenda cynyddol o ran mynediad ac amrywiaeth yn ei gyfanrwydd ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chefnogi dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Astudiaeth Partneriaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Cynhelir cyrsiau hyfforddiant athrawon fel partneriaethau rhwng SAUau ac ysgolion. Comisiynwyd Education Data Surveys (EDS) gennym i gynnal astudiaeth o bartneriaethau HCA yn 2004, a oedd yn cynnwys cost ac agweddau gweithredu partneriaethau a'r arfer dda a ddatblygwyd eisoes ar draws y sector AU yng Nghymru a Lloegr. Gofynnem i EDS nodi ystod o opsiynau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol yn y maes hwn, gan ymgynghori â'r sector ar yr opsiynau hyn ddechrau 2005.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno ynghylch y manteision sydd i CCAUC sefydlu fframwaith ariannol cyffredin a chlir ar gyfer partneriaethau a pharodrwydd i weithio gyda ni i ddatblygu canllawiau arfer dda. Gwnaethant ail-bwysleisio pwysigrwydd

cydweithredu ar draws y sector i ddatblygu atebion arloesol llawn dychymyg i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor trefniadau partneriaeth HCA yng Nghymru.

Cynllun Darpariaeth Arloesol Newydd

Bu ail gam ein Cynllun Darpariaeth Arloesol Newydd yn helpu'r sector i ddatblygu cyrsiau a phrosiectau i ddod â grwpiau newydd o ymgeiswyr i HCA. Ymhlith y cyrsiau sydd wedi bod yn rhedeg er 2004/05 mae:

- *Paratoi i Ddysgu*, cyd-fenter rhwng Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, PC Aberystwyth, PC Casnewydd a'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'r cwrs blasu hwn yn caniatáu i gyfranogwyr wneud penderfyniad gwybodus am yrfa mewn addysgu uwchradd a'u paratoi i astudio am Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR); ac
- *Addysgwch Eto*, a gynhelir gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth a'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'n darparu deunyddiau dysgu i athrawon sy'n dychwelyd i ddysgu i'w helpu i ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

Gwybodaeth ar Berfformiad

Dangosodd y wybodaeth ar berfformiad am hyfforddiant athrawon a gyhoeddwyd yn 2005 bod Cymru'n dal i fod yn gyrchfan boblogaidd i athrawon dan hyfforddiant, gyda chyfanswm o 3,856 yn hyfforddi yn 2003/04. Roedd rhyw 65% ohonynt yn hyfforddi i addysgu ar y lefel gynradd, a'r gweddill ar y lefel uwchradd.

Enillodd 2,090 o fyfyrwyr Statws Athro Cymwysedig (SAC/QTS) yn 2003/04; cafodd rhyw un o bob wyth o fyfyrwyr eu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru – Gwybodaeth ar Berfformiad, cyhoeddwyd gan CCAUC, ac wedi'u lunio i helpu athrawon potensial i ddod o hyd i gwrs hyfforddiant athrawon addas yng Nghymru.

Gwneud Iddi Weithio

Ailgyflunio a Chydweithio

Mewn datganiad ym mis Mehefin 2004 ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer AU, sef *Ymestyn yn Uwch*, cadarnhaodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ymrwymiad parhaus y Cynulliad i geisio ailgyflunio a chydweithio yn y sector.

Cynlluniwyd ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio i ailffurfio'r sector AU yng Nghymru mewn modd a fydd yn cynyddu cystadleurwydd ac yn gwella perfformiad hyd yn oed yn fwy yng Nghymru. Cyhoeddodd y byddai Cam 2 y Gronfa yn dod i gyfanswm o £8m yn 2004-05, sy'n gynydd o draean o'r flwyddyn flaenorol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, rhoddodd gymorth i cyfuniad Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru gyda grant o £15 miliwn dros y cyfnod 2003-04 i 2005-06, y ddau i gyllido'r broses gyfuno ac i hwyluso cynlluniau ymchwil uchelgeisiol y sefydliad newydd. Cynigiom hefyd grant potensial ad-daladwy o hyd at £8 miliwn i helpu gyda'r llif arian.

Cyn cwblhau'r cyfuniad yn ffurfiol, dechreuodd y ddau sefydliad weithredu fel un sefydliad o fis Awst 2004. Dylai Cymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfuno drwy waith y sefydliad newydd yn datblygu addysgu ac ymchwil o safon ryngwladol, cryfhau'r gwasanaeth iechyd a'r posibilrwydd o greu 3,000 o swyddi newydd ac amrywiaeth o gwmnïau technoleg uchel newydd.

Cefnogodd CCAUC resymoli cyrsiau addysg, y gyfraith a gofal iechyd a gynigir gan PC Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe, a chyllidodd Gynlluniau Ysgoloriaeth Ôl-radd a Chynlluniau Cymrodoriaeth Addysgu Ôl-ddoethuriaeth Cyfrwng Cymraeg. Roedd hon

hefyd yn flwyddyn pan gryfhawyd y cysylltiad strategol rhwng Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru a Phrifysgol Cymru Bangor. Cafwyd sawl datganiad o ddi-ddordeb am fentrau cydweithredol eraill.

Yn 2004-05, comisiynwyd adolygiad archwilio gennym o'r rhesymau pam y chwalodd y trafodaethau ynghylch cyfuno rhwng Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg, a fydd yn ein helpu ni a sefydliadau mewn unrhyw drafodaethau eraill tebyg yn y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y byddem yn comisiynu adolygiad o ddyfodol sefydliadau addysg uwch ôl-92 yn ne-ddwyrain Cymru. Cychwynnodd yr Athro Syr Ron Cooke, cyn Is-ganghellor Prifysgol Efrog, a'r Athro John Bull, cyn Is-ganghellor Prifysgol Plymouth, ar eu hadolygiad tua diwedd 2004-05.

Cynllunio Strategol

Mae'r broses gynllunio strategol yn rhan ganolog o'n deialog gyda sefydliadau unigol, ac mae'n ein helpu i gynrychioli'r sector i Lywodraeth y Cynulliad ar faterion sydd o bwys i addysg uwch. Bob blwyddyn, byddwn yn rhoi adborth manwl ar y cynlluniau strategol a gyflwynwyd gan sefydliadau. 2004-05 oedd yr ail flwyddyn i SAUau adrodd ar gynydd yn erbyn amrywiaeth o dargedau sydd, gyda'i gilydd, yn dangos y cynnydd y gwna'r sector tuag at gyflawni targedau 2010, a bennir yn *Ymestyn yn Uwch*. Rydym yn gweithio gyda'r sector i wella cyflawniad rhai targedau penodol lle nodwyd bod diffygion. Buom hefyd yn ymgynghori â sefydliadau ynghylch symud ymlaen tuag at broses o gyflwyno datganiadau monitro blynyddol, a fyddai'n lleihau'r baich arnyn nhw wrth baratoi adroddiadau cynnydd ar wahân ar gynlluniau unigol.

Monitro Ariannol

Rydym yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol SAUau yn systematig drwy ddadansoddi'r datganiadau ariannol archwiliedig, rhagolygon ariannol ac ystadegau canol blwyddyn a ddychwelir i ni ganddynt. Roedd y datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer 2004/05 yn dangos gwelliant yn iechyd ariannol y sector, yn nhermau maint y gwaged gweithredol, er y bu gostyngiad mewn hylifedd tymor-byr. Fodd bynnag, mae lefel y gwaged gweithredol yn aros yn isel yn nhermau cynhyrchu arian i'w fuddsoddi yn y dyfodol. Nod ein proses monitro ariannol yw darganfod anawsterau ariannol posibl neu wirioneddol mor fuan ag y bo modd, a thrwy hynny, alluogi swyddogion i weithio gyda SAUau i sicrhau y gweithredir ar unwaith i wella'r sefyllfa.

Llywodraethu

Parhawyd i roi sylw manwl i lywodraeth y SAUau ac asesiad y Cyngor yw bod systemau a gweithdrefnau llywodraethu sefydliadol, ar draws y sector, yn gweithredu'n foddhaol ar y cyfan.

Yn 2004, buom yn helpu sefydliadau i ddatblygu arferion llywodraethu a rheoli ymhellach. Yn benodol:

- comisiynwyd ymgynghorwyr gennym i roi cyngor a chanllawiau pellach ynghylch datblygu a gweithredu strategaethau adnoddau dynol sefydliadau; a
- cefnogom waith ar draws y DU i adolygu canllawiau Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion i aelodau Cyrff Llywodraethu AU yn y DU a'u cod ymarfer llywodraethu, a lanswyd ym mis Tachwedd 2004.

Deialog gyda'r sector

Sefydlwyd proses ffurfiol o Ddeialog Strategol gyda'r sector AU yn 2004, a oedd yn cynnwys dau gyfarfod y flwyddyn rhwng CCAUC, Addysg Uwch Cymru (AUC) a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC). Yn ogystal, cychwynnodd y cyngor ar gyfres o ymweliadau ffurfiol â sefydliadau, lle bydd aelodau'r Cyngor a swyddogion yn ymweld â phob sefydliad bob tair blynedd, a thrwy hynny roi cyfle arall i drafod materion strategol gyda llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Ymwelwyd â thri sefydliad yn 2004-05.

Rydym yn parhau i gefnogi Sefydliad Arweinyddiaeth Addysg Uwch, a sefydlwyd i wella cystadleurwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sector drwy ddatblygu proffesiynoldeb arweinwyr, llywodraethwyr a rheolwyr ymhellach. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod gweithgareddau yn y maes hwn yn ychwanegu gwerth at berfformiad SAUau unigol a sector AU Cymru yn gyffredinol.

Ystadau

Roedd ail gam y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol yn cefnogi datblygiadau o bwys yn sefydliadau Cymru sydd â sylfaen ymchwil gref, a dyrannwyd bron i £10m o'r cyllid ar gyfer gwaith adeiladu newydd yn 2004-05 a 2005-06, a neilltuwyd dros £8m ar gyfer ailwampio. Roedd y datblygiadau a gefnogwyd yn cynnwys darparu lle newydd ym Mhrifysgol Cymru Bangor i'r gwyddorau amgylcheddol, a rhaglen sylweddol i ailwampio labordai ym Mhrifysgol Caerdydd i greu lle o'r radd flaenaf a hyblyg.

Mae'r rheoliadau statudol cynyddol mewn perthynas ag ystadau a chyfleusterau yn dal i roi cryn bwysau ar SAUau Cymru i sicrhau bod eu hystadau'n cwrdd â'r safonau angenrheidiol. Mae'r cyllid cyfalaf penodedig o £9.6m, a

ddarparwyd gennym yn 2004-05, wedi helpu sefydliadau i fynd i'r afael â'r angen i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

At ei gilydd, er bod cynnydd wedi cael ei wneud, mae'r sector yn dal i wynebu cryn her wrth ymdrin ag adeiladau o'r 1960au a'r 1970au sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol ac y mae'n rhaid eu hailwampio neu eu hamnewid nawr.

Hybu Cydraddoldeb

Mae'r Uned Her Cydraddoldeb, (ECU) a gyllidir gan gynghorau cyllido AU y DU, yn rhoi cymorth

i sefydliadau ar faterion cyfle cyfartal, yn enwedig materion yn ymwneud â staff. Darparodd yr Uned adborth ar bolisiau cydraddoldeb hiliol SAUau a, gyda'n gilydd, buom yn monitro perfformiad sefydliadau yn y maes hwn ac yn annog sefydliadau i ddatblygu eu polisiau Cydraddoldeb Hiliol.

Buom hefyd yn cyd-gyllido *Pecyn Cymorth Cyfathrebu ac Ymgynghori ar Gydraddoldeb Hiliol* i sefydliadau addysg uwch, a roddodd arweiniad ar ddulliau ymgynghori a chyfathrebu sy'n briodol i sefydliadau addysg uwch, i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau yn ôl Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) (2000).

Busnes y Cyngor

Atebolrwydd y Cyngor

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd a wneir o'r arian cyhoeddus a roir i'r Cyngor.

Diffinnir y berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth y Cynulliad mewn Datganiad Rheoli ac mewn Memorandwm Ariannol. Gall archwilywyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a swyddfa annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) archwilio cofnodion a chyfrifon y Cyngor. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad bob chwarter gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Cynllunio Corfforaethol a Gweithredol

Bob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu ar y cyd strategaeth gorfforaethol (sy'n cyflwyno'n

hamcanion strategol hirdymor), cynllun corfforaethol am y tair blynedd ariannol nesaf, a chynllun gweithredol manwl am y flwyddyn gyntaf o'r tair. Mae'r cynllun gweithredol yn cynnwys targedau a gweithredoedd a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n cael eu nodi yn ei Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i CCAUC. Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau yn cael ei adolygu bob chwarter, gan y Cyngor ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth y Cynulliad.

Ymateb i'r Amgylchedd a Rheoli Risg

Fel corff cyfryngol rhwng y Cynulliad a'r sector AU yng Nghymru, rydym yn gweithredu o fewn amgylchedd y mae gennym ddylanwad arno yn hytrach na rheolaeth. Rydym yn cadw cofrestr o risg corfforaethol uchel yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawniad amcanion ein cynllun corfforaethol, ac â'r amgylchedd ehangach y gweithredwn o'i mewn, a mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad y DU a rhyngwladol ehangach ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae datblygiadau mewn mannau eraill yn effeithio ar gystadleurwydd y sector yng Nghymru. I reoli hyn, byddwn yn cynnal deialog â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch yr angen i ddarparu cyllid ar lefel sy'n briodol i'r realiti hwn.

Wrth symud ymlaen â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Ymestyn yn Uwch*, byddwn yn cymryd unrhyw fesurau sy'n angenrheidiol i gadw hyder y sector ac i gynnal ein gallu ni ein hunain i hwyluso newid. Byddwn yn rheoli'r broses ailgyflunio a chydweithio yn egniol ac yn gweithio gyda'r SAUau i helpu rhwystro partneriaethau mawr rhag pallu a phartneriaethau bach rhag bod yn rhy gyfyngol i gael effaith.

Gwella Effeithlonrwydd

Fel Cyngor, ymdrechwn i sicrhau ein bod ni'n gweithio'n effeithlon ac effeithiol, a'n bod ni'n gyflogwr model. Rydym yn ymroi i gadw safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Yng ngoleuni Adroddiad Rawlings, cynigiom achos am wahanu staff y Cyngor ac ELWa yn llwyr i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2004. Byddwn yn parhau i adolygu ein strwythur staffio a chymorth, a hefyd ein systemau ariannol ac eraill, i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol ar gyfer diogelu arian cyhoeddus a sicrhau gwerth am arian.

Cyfansoddiad y Cyngor

Ym mis Ebrill 2003 roedd gan y Cyngor 12 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Ymddiswyddodd un aelod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Ailbenodwyd dau aelod, y Cadeirydd yn un ohonynt, yn ystod y flwyddyn gan y Cynulliad i wasanaethu ar y Cyngor am dymor arall.

Cyfarfu'r Cyngor wyth gwaith yn 2004-05. Bydd aseswr o Lywodraeth y Cynulliad yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae gan Brif Weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban, y Dirprwy Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am addysg uwch yn Adran Gyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Cynghorau Ymchwil statws arsyllwr ar y Cyngor.

Yr Uned Weithredol

Ar gyfartaledd, roedd 41 o swyddi cyfwerth ag amser-llawn yn cefnogi'r Cyngor yn 2004-05. Mae hyn yn cynnwys holl staff y Cyngor, gan gynnwys staff rhan-amser a rhannu swydd, penodiadau tymor penodedig, staff ar secondiadau tymor byr a hir a myfyrwyr yn gweithio ar leoliad. Bu oddeutu 4.5 o staff cyfwerth ag amser-llawn yn gweithio i CCAUC ac i'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa.

Y Cod Ymarfer a'r gofrestr o fuddiannau

Mae gofyn i bob aelod o'r staff a'r Cyngor gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru buddiannau ariannol a gwleidyddol a buddiannau eraill sy'n berthnasol i fusnes y Cyngor. Gellir gweld y gofrestr o fuddiannau drwy wneud cais i Glerc y Cyngor.

Polisi dwyieithrwydd

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylai'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar ein Cynllun Iaith Gymraeg ac wedi cyflwyno'r Cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo. Rydym hefyd wedi cyflwyno ein Strategaeth Prif-ffrydio'r Iaith Gymraeg i Lywodraeth y Cynulliad; mae hon yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu prif-ffrydio ystyriaeth o'r iaith Gymraeg yn ein prosesau llunio polisi a darparu gwasanaethau.

Trefn gwyno

Rydym yn gweithredu Trefn Gwyno. Ni dderbyniwyd unrhyw gais i ystyried cwyn o dan y Drefn Gwyno yn ystod y flwyddyn. Gall Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i'n gwaith.

Darparu Gwybodaeth

Mae Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor, a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn nodi: y wybodaeth yr ydym ni'n ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi, yn rheolaidd; sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl. Mae'r Cynllun Cyhoeddi ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi caled gan Glerc y Cyngor.

Cynllun Cydraddoldeb Hiliol

Rydym ni wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Dogfen a fydd yn datblygu'n barhaus yw hon, sydd wedi cael ei newid i gymryd i ystyriaeth sylwadau Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, yr Uned Her Cydraddoldeb a'r sector. Mae'r cynllun yn cynnwys mesurau sy'n mynd i'r afael â'r Cyngor fel cyflogwr a pholisïau yn ymwneud â'r sector AU yng Nghymru. Ar ôl ymgynghori ymhellach, ailasesom ein datganiad o bolisïau perthnasol a blaenoriaethau.

Pwyllgorau a gweithgorau'r Cyngor

Y Pwyllgor Asesu Ansawdd / Gweithgor Ansawdd
Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett

Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Cadeirydd: Mr Tim Rees

Y Pwyllgor Adnoddau Dynol
Cadeirydd: Mrs Tina Stephens

Y Pwyllgor Tâl
Cadeirydd: Yr Athro Syr Roger Williams

Y Pwyllgor Trydedd Genhadaeth
Cadeirydd: Dr Len Arthur

Y Panel Ailgyflunio
Cadeirydd: Dr Geoffrey Thomas

Grŵp Llywio Cenedlaethol Ymestyn yn Ehangach
Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett

Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch
Cadeirydd: Mr Andrew Green

Aelodau'r Cyngor yn Ystod 2004-05



Yr Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Reading Penodwyd i'r Cyngor yn gyntaf yn 1995; penodwyd yn Gadeirydd yn 2002 a'i ailbenodi am dymor tair blynedd yn 2005

Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Reading yw'r Athro Roger Williams. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ramadeg Tredegar a graddiodd ym Mhrifysgol Rhydychen. Bu'n Gyngorwr Arbennig i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg o 1986 hyd 1992 ac yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianeg a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Ymunodd yr Athro Williams â'r Cyngor ym 1995 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar 1 Mawrth 2002.



Yr Athro Philip Gummatt, Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Dros Dro o fis Rhagfyr 2003; Prif Weithredwr o fis Mai 2004

Yr Athro Gummatt yw cyn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Manceinion, lle'r oedd yn Bennaeth yr Adran Llywodraeth ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg. Roedd yn un o sylfaenwyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Bolisi mewn Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion, un o ganolfannau ymchwil bolisi pwysicaf y byd ym maes gwyddoniaeth, ac mae'n gyn aelod ac yn Gadeirydd Bwrdd yr Arholwyr, Bwrdd Hyfforddiant y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.



Dr Len Arthur
Uwch Ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd Penodwyd yn gyntaf yn 2002; ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005

Mae gan Dr Len Arthur 27 blynedd o brofiad mewn addysg bellach ac uwch yng Nghymru a Lloegr ac mae ar hyn o bryd yn uwch ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil ac Astudiaethau Graddedigion yn Ysgol Fusnes yr Athrofa. Mae Dr Arthur wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith Cymdeithas Genedlaethol yr Athrawon Addysg Bellach ac Uwch.



Mrs Perminder Dhillon
(hyd mis Gorffennaf 2004) Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Canol Swydd Gaerhifryn ac Ymgynghorydd/Hyfforddwraig (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) Penodwyd yn gyntaf yn 2002; gadawodd ym mis Gorffennaf 2004

Mae Mrs Perminder Dhillon yn uwch ddarlithydd yn y Gyfadran Iechyd ym Mhrifysgol Canol Swydd Gaerhifryn lle mae hi'n gweithio ar faterion iechyd ac ethnigedd, gan gynnwys addysg ac ymchwil ym maes atal cyffuriau ac addysgu a hyfforddiant ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Fel Ymgynghorydd a Hyfforddwraig mae ganddi dros ugain mlynedd o brofiad o weithio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar faterion cydraddoldeb ac, yn benodol, materion cydraddoldeb hiliol. Bu Mrs Dhillon yn aelod o'r Cyngor Addysg ac Ymchwil Alcohol ac mae'n brysur gyda nifer o ymddiriedolaethau.



Mrs Wendy Heppell
*Cyfarwyddwr -
Menter, Chwarae Teg
Penodwyd am dymor tair
blynedd yn 2003*

Roedd Mrs Wendy Heppell yn Gyfarwyddwr – Menter gyda Chwarae Teg, yr asiantaeth sy'n Meithrin datblygiad economaidd menywod yng Nghymru. Cyn ymuno â Chwarae Teg ym mis Ionawr 2002, treuliodd un mlynedd ar ddeg yn y diwydiant cemegion. Bu'n aelod o Bwyllgor Bwrsariau Coleg y Brifysgol, Rhydychen ers ei sefydlu ym 1999 ac mae hi hefyd yn gysylltiedig â rhaglen Ysgolion Targed y Colegau yn Ne Cymru.



Ms Eleri Wynne Jones
*Cyn Ddarlithydd Rhan-
amser, Prifysgol Cymru,
Bangor
Penodwyd yn gyntaf yn
2000; ailbenodwyd yn 2003*

Darlithydd rhan-amser mewn Cymdeithaseg a Chwrsela ym Mhrifysgol Cymru, Bangor fu Ms Eleri Wynne Jones. Mae hi bellach wedi ymddeol. Mae hi'n gyn-aelod o Gynghorau Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth, ac yn aelod ac yn un o sylfaenwyr Gwasanaeth Cyfryngu Gogledd Cymru. Ar wahân i'w gwaith academiaidd, mae ganddi gefndir nodedig mewn darlledu, ar ôl bod yn aelod o Fwrdd S4C a Channel 4, ac yn aelod dros Gymru ar y Comisiwn Teledu Annibynnol.



Mr Tim Rees
*Cyfrifydd Siartredig;
cyn Gadeirydd y
Llywodraethwyr,
Prifysgol Morgannwg
Penodwyd yn gyntaf yn
2002; ailbenodwyd am
dymor tair blynedd yn 2005*

Mae Mr Tim Rees yn Gyfrifydd Siartredig. Mae ganddo brofiad helaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bu'n gwasanaethu ar Fwrdd Prifysgol Morgannwg ers 1992 a bu'n Gadeirydd y Llywodraethwyr o 1996 hyd nes cael ei benodi i CCAUC. Bu'n gwasanaethu gydag Awdurdod Tir Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Iechyd Cyffredin Cymru.



Yr Athro D Garel Rhys
OBE
*Cyfarwyddwr y Ganolfan ar
gyfer Ymchwil Diwydiant
Modurol, Prifysgol Caerdydd
Penodwyd yn gyntaf yn
2003*

Cyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yw'r Athro Garel Rhys ac mae'n dal cadair Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau Modur mewn Economeg Diwydiant Modurol. Roedd yn bennaeth Is-adran Economeg yr Ysgol Fusnes hyd 1999. Mae'n Gadeirydd Fforwm Modurol Cymru a roedd yn gynghorydd arbennig i Awdurdod Datblygu Cymru. Mae ef ar hyn o bryd yn gadeirydd Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol.



Yr Athro Syr Brian Smith
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd Penodwyd yn gyntaf yn 2002; ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005

Penodwyd Syr Brian yn Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd ym 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny bu'n Feistr Coleg y Santes Catherine ym Mhrifysgol Rhydychen. Cafodd ei urddo'n farchog ym 1999, mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant i adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Hefyd bu Syr Brian yn gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a China.



Mrs Tina Stephens
Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygiad staff Penodwyd yn gyntaf yn 2002; ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005

Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygiad staff a Phrif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad yw Mrs Tina Stephens. Mae ganddi 26 blynedd o brofiad mewn addysg uwch a hyd yn ddiweddar roedd hi'n Bennaeth Ysgol Fusnes Wrecsam, rhan o Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae Mrs Stephens yn Gadeirydd Grŵp Datblygu Rheolaeth Gogledd Cymru, rhwydwaith sy'n hyrwyddo datblygiad mentrau bach i ganolig er mwyn meithrin cyfleoedd economaidd a gwaith, ac yn Weithredwr Gogledd Cymru dros Gyngor Rheolaeth Cymru.



Dr Geoffrey Thomas
Cyfarwyddwr yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg Penodwyd yn gyntaf yn 2000; ailbenodwyd yn 2003

Mae Dr Geoffrey Thomas yn Gyfarwyddwr yr Adran Addysg Barhaus ym Mhrifysgol Rhydychen ac yn Llywydd Coleg Kellogg. Graddiodd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe ac enillodd ei radd ymchwil ym Mhrifysgol Caergrawnt. Bu'n Aelod o Gyngor y Gymdeithas Brydeinig, yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas y Prifysgolion dros Addysg Barhaus, ac yn aelod o Bwyllgor Ymchwilio Swyddfa'r Cabinet i Ddealltwriaeth Gyhoeddus o Wyddoniaeth.



Yr Athro Gwyn Thomas
Athro'r Gymraeg wedi ymddeol, Prifysgol Cymru, Bangor Penodwyd yn gyntaf yn 2000; ailbenodwyd yn 2003

Cyn Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yw'r Athro Gwyn Thomas. Mae'n gyn-aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru a bu'n Gadeirydd ei Bwyllgor Llên. Bu'n ysgrifennydd ac yn Gadeirydd Pwyllgor Iaith a Llên Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru, ac yn Gadeirydd Gweithgor y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg.

Perfformiad yn Erbyn Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith 2004-05

Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)

Canlyniad

Ymestyn yn Ehangach

Annog dull cyfannol o ehangu mynediad.

Gweithio'n agos gyda phartneriaethau *Ymestyn yn Ehangach* i wella'r modd y caiff cynlluniau ehangu mynediad eu cydlynu ar draws Cymru

Sefydlwyd Grŵp Llywio Cenedlaethol *Ymestyn yn Ehangach* i gyfarwyddo gweithredu partneriaethau Ymestyn yn Uwch-*Ymestyn yn Ehangach*.

Parhaodd SAUau i gyflwyno diweddariadau ar strategaethau Ehangu Mynediad ac adroddiadau gwariant.

Roedd canllawiau ar strategaethau Trydedd Cenhadaeth yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau AU ddangos cysylltiadau â strategaethau Ehangu Mynediad. Adlewyrchir hyn hefyd yn y canllawiau ar y rownd newydd o strategaethau Ehangu Mynediad tair blynedd ar gyfer 2005/06 i 2007/08.

Partneriaethau Ymestyn yn Ehangach i gysylltu â Gyrfa Cymru ac Anelu'n Uwch i wella llif gwybodaeth a chynyddu cyrhaeddiad a chodi dyheadau.

Sefydlwyd cysylltiadau cychwynnol gyda Gyrfa Cymru mewn perthynas â'r agenda ehangu mynediad. Mae un bartneriaeth *Ymestyn yn Ehangach* eisoes yn cynnwys cynrychiolydd o Gyrfa Cymru.

Mae Cydlynnydd *Ymestyn yn Ehangach* CCAUC yn eistedd ar Grŵp Cydlynu Anelu'n Uwch ac mae partneriaethau'n gweithio gyda threfnwyr sioeau ffordd.

Parhau i gynnig arweiniad i SAUau a'u monitro, i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau statudol o ran amrywiaeth, cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol yn y sector AU.

Cynorthwywyd sefydliadau i ddatblygu eu polisiâu cydraddoldeb hiliol. Monitryd polisiâu cydraddoldeb hiliol sefydliadau drwy broses gynllunio strategol ym mis Gorffennaf 2004.

Y Cyngor i annog cydweithio gyda'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf perthnasol, er mwyn cynorthwyo i lunio a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu Cymunedol. Yn arbennig, sicrhau bod y sector yn cysylltu'n ddigonol gyda'r partneriaethau hyn ar gynlluniau ehangu mynediad.

Wedi cydweithio â phartneriaethau *Ymestyn yn Ehangach* i'w hannog i gysylltu â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Trafodaeth yn mynd rhagddi gyda swyddogion y Cynulliad am natur y cysylltiadau hyn.

<p>Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)</p>	<p>Canlyniad</p>
<p>Y Fargen i Fyfyrrwyr</p>	
<p>Darpariaeth cyfrwng Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> - rhoi gwybod yn gynnar i'r Gweinidog am yr amserlen ar gyfer derbyn strategaeth y Grŵp Llywio Cyfrwng Cymraeg Lefel Uchel a chynigion i gyrraedd y targed 7% erbyn 2010, gan gynnwys cynigion i lunio adroddiadau cynnydd rheolaidd. - darparu cynigion ar sail tystiolaeth i'r Gweinidog gan y Grŵp Llywio Cyfrwng Cymraeg Lefel Uchel ar brif-ffrydio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. - annog sefydliadau i brif-ffrydio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, drwy ddefnyddio cyllid craidd yn ogystal â chyfleoedd a gynigir gan gyllid cynlluniau - yn benodol, y cyfleoedd a gynigir drwy'r agenda ailgyflunio a chydweithio a'r cyllid cysylltiedig. 	<p>Gweithiwyd drwy gyfrwng y Grŵp Llywio Cyfrwng Cymraeg i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac adroddwyd i'r Gweinidog ym mis Ebrill 2004.</p>
<p>Y Cyngor i adolygu 'cyfleoedd am gyllid ychwanegol' i gefnogi addysgu a dysgu allan o'i ddyraniad o adnoddau mewnol.</p>	<p>Comisiynwyd adolygiad o strategaethau dysgu ac addysgu a rhoddwyd adborth i sefydliadau.</p>
<p>Pwyslais ar adolygu arferion pedagogaidd fel modd o sicrhau bod dulliau addysgu'n esblygu i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, yn enwedig rhai myfyrrwyr anhraddodiadol.</p>	<p>Academi AU yn ei le er Ebrill 2004. Yr Academi'n cynnal rhaglen o weithgareddau thematig gyda'r sector a gweithgareddau i wella pynciau <i>[rhyd-dheir y canlyniadau yn 2005-06]</i>.</p>
<p>Fframwaith credydau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa ac ACCAC ar ddatblygu a gweithredu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCCChC). 	<p>Cyfarfu Cadeirydd y Cyngor â chymheiriaid o'r Cyngor Cenedlaethol ac ACCAC yn rheolaidd i fonitro cynnydd.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd bob deufis rhwng swyddogion CCAUC a FfCCChC, yn ogystal â phre-senoldeb swyddog o CCAUC ar y Grŵp Cyfeirio Polisi Credydau.</p>

<p>Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)</p>	<p>Canlyniad</p>
<p>Y Fargen i Fyfyrrwyr</p>	
<p>- adrodd ar gyfleoedd a'r camau nesaf mewn perthynas â chyfleoedd a gynigir gan ddatblygiadau Ewropeaidd (yn enwedig proses Bologna) wrth ddatblygu fframwaith credydau.</p>	<p>Gweithiwyd gyda Chonsortium Credydau Addysg Uwch Cymru i gyhoeddi Manyleb a Chanllawiau Credydau AU. <i>[i'w symud ymlaen drwy ymgynghoriaeth, i adrodd yn 2005-06].</i></p> <p>Cyfrannwyd at gyhoeddi Arweiniad i Bologna gan yr Uned Ewropeaidd, ac at ddisgrifiad atodol Diploma Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o'r sector AU (y ddau i'w cyhoeddi ym mis Chwefror 2005).</p>
<p>Y Cyngor i gydweithredu'n llawn gyda'r Prosiect Esblygu Cymorth i Fyfyrrwyr (grŵp Rees) a chefnogi staff y Cynulliad yn y camau paratoadol, drwy ddarparu data a chyngor ac arweiniad ar bolisi.</p>	<p>Y Prif Weithredwr yn gwasanaethu ar brosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo cymorth i fyfyrrwyr. Gwahoddwyd aelod o Gyngor CCAUC i wasanaethu ar grŵp Rees.</p>
<p>Y sector AU i gadw'r momentwm cadarnhaol ar recriwtio o dramor, a'r Cyngor i barhau i gefnogi hynny'n ariannol.</p>	<p>Mae'r holl SAUau wedi cytuno i danysgrifio i Gonsortium Rhyngwladol Cymru hyd at 2006/07. Y gwaith o gyflwyno'r swyddogaethau craidd yn mynd rhagddo'n llwyddiannus. <i>[Trefniant cyllido yn y dyfodol i'w ystyried yn 2005-06].</i></p>
<p>Ymchwil Ragorol</p>	
<p>Y Cyngor i adolygu ei ddull o gyllido ymchwil yng ngoleuni Papur Gwyn Lloegr a'r adolygiad ledled y DU o asesu ymchwil, gan ystyried yr amcanion lluosog o gynnal a gwella rhagoriaeth mewn ymchwil a chefnogi twf a gwell perfformiad mewn meysydd newydd, yn enwedig y rhai sydd o bwys arwyddocaol i Gymru.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor ar addasiadau i drefniadau cyllido ym mis Ionawr 2004, gan gynnwys sefydlu'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil yn 2004/05.</p>

<p>Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)</p>	<p>Canlyniad</p>
<p>Ymchwil Ragorol</p>	
<p>Adolygu'r cyfraniad y gallai ailgyflunio ei wneud i gyflawni amcanion ymchwil yn <i>Ymestyn yn Uwch</i>.</p>	<p>Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Cynulliad ynghylch symud ymlaen gyda'r galw ar i CCAUC "bennu sawl maes ychwanegol, mewn ymchwil, ayb lle byddai dull cydweithredol yn dod â chanlyniadau gwell na gweithredu unochrog" [Datganiad y Gweinidog ADGO i'r Cynulliad, 9 Mehefin 2004]. Yn gweithio gyda'r Sector i nodi meysydd posibl. Mae rhai cynigion dan ystyriaeth ar hyn o bryd.</p>
<p>Pwyslais parhaus ar y sector yn cynyddu ei gyfran o gyllid y Cynghorau Ymchwil.</p>	<p>Yn BAc 2003/04:</p> <ul style="list-style-type: none"> - 3.5% oedd cyfran Cymru o incwm Cynghorau Ymchwil y DU; a - chynyddodd yr incwm ymchwil o ffynonellau allanol ac eithrio'r Cynghorau Ymchwil gan 22.3% yn 2002/03. <p>Mae'r Cyngor yn dal i fonitro yn glos lefelau cyllid ymchwil yn allanol a sicrheir gan SAUau Cymru.</p>
<p>Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas</p>	
<p>Cronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF)</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ar ôl trosglwyddo KEF i'r WDA, y Cyngor i barhau i ymgymryd â chyfeiriad strategol KEF, yn enwedig yng nghyd-destun adolygiad arfaethedig y WDA o'r rhaglen. - SAUau i ymgorffori trosglwyddo gwybodaeth yn eu gweithgareddau craidd a defnyddio KEF i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad economaidd. 	<p>Cynhaliwyd cysylltiad swyddogion â gweithgareddau a chyfeiriad strategol KEF [aros am ganlyniad y cyfuno â'r Cynulliad cyn gweithredu].</p> <p>Monitrowyd defnydd SAUau a KEF drwy strategaethau Trydedd Cenhadaeth. Mae Pwyllgor Trydedd Cenhadaeth y Cyngor wedi sefydlu grŵp tasg a chwblhau i fynd â'r mater hwn yn ei flaen.</p>

<p>Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)</p>	<p>Canlyniad</p>
<p>Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas</p>	
<p>Y Cyngor i barhau i ymwneud â'r tasglu Swyddi Gwell.</p>	<p>Ceisiwyd aelodaeth o'r tasglu Swyddi Gwell drwy'r ymateb i SEAP 2 ym mis Gorffennaf 2004.</p>
<p>Y Cyngor i gyfrannu at baratoi Cynllun Gofodol Cymru (CGC), ac i gefnogi gweithredu a mynd i'r afael â materion allweddol sy'n deillio ohono.</p>	<p>Cyfrannodd swyddogion CCAUC drwy fod yn aelodau o grwpiau llywio allweddol sy'n goruchwyllo gweithredu polisi CGC.</p>
<p>Y Cyngor i annog SAUau i gyfrannu at lunio a chyflwyno Strategaethau Cymunedol awdurdodau lleol.</p>	<p>Monitrowyd cynnydd drwy ddadansoddi strategaethau Trydedd Genhadaeth sefydliadau.</p>
<p>Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</p>	
<p>Dim tasgau penodol yn y Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2004-05 mewn perthynas â HCA.</p>	<p>Gweithgareddau a chyflawniadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd cyfarfodydd tri-pharti gydag Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru bob tymor, a ategwyd gan gyfarfodydd dau-barti gydag Estyn, i ystyried ffyrdd o wella ansawdd a safonau mewn HCA. • Comisiynwyd gwerthusiad o gostau a strwythur trefniadau partneriaethau HCA rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion. • Cyhoeddwyd Gwybodaeth am Berfformiad HCA blynyddol ym mis Hydref 2004. • Cafwyd a monitrowyd strategaethau HCA. • Diwygiwyd a chyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer recriwtio i HCA Uwchradd yng Nghymru.

<p>Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith (trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)</p>	<p>Canlyniad</p>
<p>Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyranwyd cyllid bwrsariaeth ar gyfer Cynlluniau Recriwtio i Hyfforddiant Athrawon i sefydliadau. • Gweithiwyd gyda'r sector i annog cwblhau' prosiect Hyfforddi Athrawon/Teacher Training (HATT) ar gyfer dysgu HCA o bell. • Gofynnwyd am adroddiadau monitro gan sefydliadau ar gynlluniau peilot ar ddarpariaeth arloesol.
<p>Gwneud iddi Weithio</p>	<p>Darparwyd deunydd briffio ar gyfer cyfarfod rhwng y Gweinidog ADGO, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar 26 Ebrill 2004. <i>[Nid oedd gofyn i CCAUC gyflwyno Cylch Cynllunio Cyllideb ffurfiol i'r Cynulliad eleni].</i></p>
<p>Ailgyflunio a chydweithio</p> <p>Rhoi dadansoddiad strategol ac adroddiad o gynnydd i'r Gweinidog ar ailgyflunio, yn cynnwys manylion am gynigion ar gyfer prosiectau gwerthuso, erbyn 31 Mai 2004.</p> <p>Darparu data a thystiolaeth bod y sector cyfan wedi mabwysiadu'r agenda ailgyflunio/cydweithio, i gefnogi bidiau am Adolygiad o Wariant y Cynulliad a Chylch Cynllunio'r Gyllideb.</p>	<p>Sefydlwyd Grŵp Sefydlog ar Gydraddoldeb.</p> <p>Monitryd polisiâu cydraddoldeb hiliol sefydliadau drwy broses gynllunio strategol, Gorffennaf 2004.</p> <p>Cynorthwywyd sefydliadau i ddatblygu eu polisiâu cydraddoldeb hiliol, a rhoddwyd adborth gan yr Uned Her Cydraddoldeb ac arweiniad gan y Cyngor. Cafwyd canlyniad da, ac aseswyd bod yr holl sefydliadau'n cydymffurfio i raddau helaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol.</p>
<p>Cyfle cyfartal</p> <p>- Parhau i roi arweiniad i SAUau a'u monitro i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau statudol mewn perthynas ag amrywiaeth, cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol yn y sector AU.</p> <p>- Parhau i weithio gyda'r Uned Her Cydraddoldeb i symud yr agenda cydraddoldeb yn ei flaen.</p>	

Tasgau'r Llythyr Cylch Gwaith

(trefnwyd yn ôl Nodau Strategol CCAUC)

Canlyniad

Gwneud iddi Weithio

Parhau i annog sefydliadau AU i foderneiddio'u strategaethau AD.

Adroddwyd i'r Cynulliad ar ganlyniad yr adroddiad cyntaf ar Archwiliadau Peilot o Gyflog Cyfartal, a hefyd ar ganlyniad prosiect HERA ym mis Ebrill 2004. Yn ogystal, daeth yr adroddiad i law a gomisiynwyd gan OPM ar strategaethau AD sefydliadau.

Adrodd ar gynnydd sylweddol mewn cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor, a rhoi sicrwydd y rhoddir sylw priodol i rwymedigaethau'r Cyngor o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar ein Cynllun Iaith a chyflwynwyd y Cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo. Yn ogystal, cyflwynwyd Strategaeth CCAUC ar Brif-ffrydio'r Gymraeg i'r Cynulliad.

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, sy'n cynnwys camau gweithredu sy'n berthnasol i'r Cyngor fel cyflogwr ac i bolisiau sy'n ymwneud â'r sector AU yng Nghymru.

Gweithio gyda swyddogion y Cynulliad i adolygu Datganiad Rheoli / Memorandwm Ariannol y Cynulliad gyda CCAUC.

Rhoddwyd sylwadau ar fodel drafft o'r Memorandwm Ariannol / Datganiad Rheoli a ddaeth i law ym mis Medi 2004.

Cynnydd tuag at Gyrraedd Targedau Ymgeisio'n Uwch 2000/01 to 2010/11 (Mawrth 2005)

Yn y targedau a ganlyn, heblaw am y targedau ar gyfer gorbenion a 'spinout', mae data a ddangosir hyd at 2003/04 yn ddata gwirioneddol o gofnodion yr AYAU/HESA ar gyfer SAUau neu o'r CMU/ISR ar gyfer SABau. Yn achos y targed ar gyfer gorbenion, mae data hyd at 2002/03 yn ddata gwirioneddol o ystadegau'r AYAU. Yn achos y targed ar gyfer 'spinout', mae data hyd at 2002/03 yn ddata gwirioneddol o'r arolwg HEBCIS.

Ehangu Mynediad

Targed - Canran yr holl israddedigion newydd o Gymru ar gyrsiau AU mewn SAUau neu SABau yn y DU sy'n byw yn 100 ardal Cymunedau'n Gyntaf greiddiol Cymru i godi o 8.9% yn 2000/01 i 11.4% erbyn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03			2003/04		
	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	2,733	26,848	10.2%	3,036	27,857	10.9%	3,408	28,903	11.8%	3,401	29,577	11.5%
SAUau a SABau y DU*	3,484	39,056	8.9%	3,705	38,457	9.6%	4,147	41,339	10.0%			
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig):	2.0% - 15.8%			2.2% - 16.4%			2.6% - 17.4%			4.2% - 16.0%		

- Mae'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cyfateb i'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadiad Lluosol y Cynulliad. Myfyrwyr sy'n byw o fewn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r rheiny y mae eu codau post cartref o fewn un o'r ardaloedd hyn.
- Mae'r canran o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi'i gyfrifo ar sail myfyrwyr o Gymru yn y sefydliad y mae eu wardiau'n hysbys.
- Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng ghymru.
- Cynhwysir pob modd astudio.
- Yn 2003/04, roedd gan un sefydliad gyfran fawr o godau post nad oedd modd eu mapio (16%) ac mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar y ffigur ar gyfer y canran o fyfyrwyr sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru.

*Mae ffigurau'r DU ar gyfer 2001/02 a 2002/03 yn cynnwys data ar gyfer SABau y DU o 2000/01 fel amcangyfrif. Nid yw data SABau y DU ar gyfer 2003/04 ar gael eto.

Cyfrwng Cymraeg

Targed - Y gyfran o fyfyrwyr yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 3.4% yn 2000/01 i 7% erbyn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03			2003/04		
	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%
SAUau Cymreig	3,786	108,427	3.5%	3,523	112,960	3.1%	3,819	119,789	3.2%	3,877	122,859	3.2%
SAUau a SABau y DU	3,808	110,546	3.4%	3,564	115,161	3.1%	3,819	120,924	3.2%			
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig):	0.0% - 18.8%			0.0% - 27.1%			0.0% - 21.7%			0.0% - 31.4%		

- Cyfrifir myfyrwyr fel rhai sy'n dilyn rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt wedi'u cofnodi fel myfyrwyr sy'n cymryd modiwl sydd ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes gan unrhyw fodiwlau y maent hwy'n eu cymryd ganran o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n fwy na sero. Cynhwysir cyrsiau ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.
- Cynhwysir pob modd astudio.

Cymru fel Cychfan Dewis Cyntaf

Targed - Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru SAUau y mewn SAUau yng Nghymru i godi o 60.1% yn 2000/01 i 66% erbyn 2010/11.

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru yn SAUau Cymru:

	2000/01			2001/02			2002/03			2003/04		
	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%
SAUau Cymreig	31,772	67,742	46.9%	33,729	68,669	49.1%	34,917	71,506	48.8%	35,816	73,695	48.6%
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig):	29.5% - 84.7%			30.8% - 85.8%			28.1% - 87.3%			27.9% - 86.6%		

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n astudio mewn SAUau yng Nghymru:

	2000/01			2001/02			2002/03			2003/04		
	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%
Cyfanswm SAUau y DU	31,772	52,882	60.1%	33,729	54,442	62.0%	34,917	55,747	62.6%	35,816	57,204	62.6%

- Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng Nghymru.
- Cynhwysir y moddau astudio amser-llawn a rhyngosod.

Myfyrwyr Tramor

Targed - y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn SAUau Cymru i fod yn hafal â, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a De-ddwyrain Lloegr) erbyn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03			2003/04		
	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%	Nifer.	Cyfanswm	%
SAUau Cymreig	5,322	109,765	4.8%	5,878	114,387	5.1%	7,250	121,156	6.0%	8,345	124,221	6.7%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain)	98,381	1,366,391	7.2%	108,496	1,430,036	7.6%	131,358	1,489,600	8.8%	149,805	1,548,260	9.7%
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig):	0.5% - 9.5%			0.6% - 10.5%			1.2% - 11.2%			0.22% - 11.6%		

Newid blwyddyn ar flwyddyn

	2000/01-2001/02	2001/02-2002/03	2002/03-2003/04
Cyfanswm SAUau Cymreig	10.4%	23.3%	15.1%
Cyfanswm SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain)	10.3%	21.1%	14.0%
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig):	-7.7% - 97.6%	2.8% - 93.9%	-94.2% - 64.1%

- Cymerir bod myfyrwyr yn fyfyrwyr tramor os nad ydynt yn byw yn yr UE, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw; mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid.
- Cynhwysir pob modd astudio

Canolrif SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) (£)

Lleihau Gorbenion

Targed - Y gost weinyddu ganolrif am bob myfyriwr CALL ar gyfer SAUau Cymreig i ostwng o lefel y 45ain canradd ar gyfer costau gweinyddu am bob myfyriwr CALL yn SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) i'r 40ain canradd erbyn 2007/08 a'r 25ain canradd erbyn 2010/11.

	2000/01	2001/02	2002/03
Canolrif SAUau Cymreig (£)	2,476	2,642	2,855
Canran o SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) sydd â chostau gweinyddu am bob myfyriwr CALL sy'n is na'r canolrif Cymreig	45%	44%	46%
Canolrif SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) (£)	2,659	2,802	2,888
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig) (£):	1,483 - 5,419	1,603 - 5,801	1,760 - 6,663

- Mae costau gweinyddu yn cynnwys costau adrannau academiaidd (heb gynnwys costau staff academiaidd), gwariant ar wasanaethau academiaidd a gwariant ar wasanaethau gweinyddu a chanolog (nid ydynt yn cynnwys gwariant ar adeiladau).
- Mae'r cyfrifiad CALL yn cynnwys pob myfyriwr AU ac AB a phob myfyriwr nad yw ei gwrs yn arwain at gredyd.
- Cymerir y data o ystadegau rheoli addysg uwch ar lefel y sefydliad a gyhoeddir ar CD bob blwyddyn gan yr AYAU.
- Nid yw data'r AYAU ar gyfer Prifysgol Caerdydd a CMPC wedi cael eu cyfuno yn y tabl hwn.

Incwm o Ymchwil

Targed (a) - Y ganran o gyllid y Cynghorau Ymchwil a ddenir gan SAUau Cymru i godi o 3.3% i 4.5%.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04
Cyfanswm SAUau Cymreig	22,915,000	27,077,000	28,049,000	28,840,000
Cyfanswm y DU	695,157,000	805,360,000	819,997,000	833,164,000
Cymru fel % o'r DU+	3.3%	3.4%	3.4%	3.5%

Targed (b) - Cynnydd o 60% erbyn 2007/08 a 100% erbyn 2010/11 ar y ffigur man cychwyn o £55.7 miliwn yn yr incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i'r Cynghorau Ymchwil.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04
Cyfanswm SAUau Cymreig	55,645,000	60,663,000	67,551,000	68,033,000
Cyfanswm y DU	1,512,071,000	1,628,058,000	1,775,448,000	1,881,427,000
Cynnydd fel % o'r ffigur man cychwyn		9.0%	21.4%	22.3%

Spinout

Targed - Y nifer o gwmnïau proffidiol sy'n deillio o SAUau yng Nghymru i godi o 21 i 42.

	2000/01	2001/02	2002/03
Cyfanswm SAUau Cymreig	25	31	14 *
Isaf/uchaf (SAUau Cymreig)	0/7	0/7	0/4

- Mae'r data yn dangos y cwmnïau deilliedig newydd a ffurfiwyd mewn gwirionedd ac y rhagwelir eu ffurfio bob blwyddyn academiaidd.

* Cred swyddogion fod ymwybyddiaeth y sector o ddyfodiad Deddf Ariannol 2003 yn rhannol gyfrifol am y gostyngiad yn 02/03, gan iddi dynnu'r cymhelliad i sefydliadau academiaidd fynd ati i sefydlu cwmnïau deilliedig.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Datganiadau Ariannol Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth

RHAGAIR

HANES Y CYNGOR A GWYBODAETH GEFNDIROL

Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei greu a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig iddo ar 1 Gorffennaf 1999. O ganlyniad daeth CCAUC yn gorff a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd gan y Cyngor.

Paratoir y cyfrifon yn unol â gofynion y Deddfau Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chysiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau'r awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac am gyflawni'r swyddogaethau atodol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU

Y gwarged am y flwyddyn oedd £2.293 miliwn (gwarged 2003-04 o £0.981 miliwn). Roedd cronfeydd wrth gefn cronnus ar 31 Mawrth 2005 o £8.134 miliwn (2003-04 £5.794 miliwn). Cynllunnir gwariant y Cyngor ar sail y cyllid sydd ar gael iddo. Daw hwn o'r cymorth grant a dderbynnir bob flwyddyn ac o ffynonellau incwm eraill a chronfeydd wrth gefn. Gall y datganiadau ariannol gofnodi gwarged neu ddiffyg gweithredol o ganlyniad i weithgareddau a gynlluniwyd neu o ganlyniad i amseru taliadau i'r sefydliadau. Cynllunnir gweithgareddau'r Cyngor hefyd i sicrhau bod yr arian sy'n cael ei gario ymlaen o fewn y ddau y cant o gyfanswm y cymorth grant am y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariwyd £85,000 ar asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datganiadau hyn yn cwmpasu ail cyfnod adrodd ar ddeg y Cyngor ac yn adlewyrchu datblygiad parhaus systemau a pholisïau'r Cyngor.

DATGANIAD CENHADAETH A NODAU STRATEGOL Y CYNGOR

Cenhadaeth y Cyngor yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn defnyddio cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Nodau strategol y Cyngor wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau yw:

- i. **Ymgynraedd yn Ehangach:** sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi;
- ii. **Y 'Fargen i Fyfyrywyr':** sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf;
- iii. **Ymchwil Ragorol:** sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol;
- iv. **Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas:** sicrhau perthnasoddedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol;
- v. **Hyfforddiant Cychwynol Athrawon:** cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel; a
- vi. **Gwneud iddi Weithio:** pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd.

Rhoddir disgrifiad ac esboniad manylach o nodau ac amcanion y Cyngor yn yr Adroddiad Blynyddol.

GWAHANU ODDI WRTH GYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT

Yn rhagair y llynedd adroddwyd bod y ddau Gyngor wedi gwneud cais ar y cyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig gwahanu'r ddau Gyngor yn llwyr. Ar 14 Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Prif Weinidog y penderfyniad i

ymgorffori gwaith y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ond nid CCAUC, yn uniongyrchol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2006. O ganlyniad, cychwynwyd ar y gwaith i wahanu yn ystod y flwyddyn ac mae'n mynd yn ei flaen. Yn benodol, caiff staff sydd â contract gyda'r ddau Gyngor ddewis pa Gyngor yr hoffent weithio iddo. Bydd y Cyngor yn cyflwyno systemau newydd (er enghraifft, system gyfrifo newydd o fis Hydref 2005 ac yn sefydlu ei wefan newydd o hydref 2005) lle bo angen iddo allu gweithredu'n annibynnol.

CYFRANIAD Y STAFF

Mae cyfarfodydd a seminarau staff rheolaidd yn sicrhau cyfathrebu da o fewn y sefydliad ac yn rhoi cyfle i unigolion gyfrannu at weithrediad y Cyngor. Bydd Cyngor Gwaith, lle gall cynrychiolwyr godi materion ar ran y staff, yn cyfarfod yn rheolaidd.

Ar 26 Ionawr 2000, dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Cyngor. Cafodd y dyfarniad hwn ei ailasesu ym mis Medi 2003 a darganfuwyd bod y Cyngor yn parhau i gwrdd â'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Bydd asesiad pellach ym mis Medi 2004.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei Bolisi Cyfleoedd Cyfartal i sicrhau y caiff pob aelod staff ei drin yn deg, heb ystyried rhyw, oedran, statws priodasol, anabled, na tharddiad hiliol neu ethnig.

Seilir polisi recriwtio'r Cyngor ar allu'r ymgeisydd i wneud y gwaith. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bobl anabl os yw'r medrau a'r galluoedd priodol ganddynt i gyflawni'r dyletswyddau. Pe bai aelod o'r staff yn dod yn anabl, byddai'r Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gadw'r aelod o staff yn ei swydd ac i ddarparu cyfleoedd digonol ar gyfer ailhyfforddiant a datblygiad gyrfa.

COD TALU'N BRYDLON Y CBI

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i dalu biliau ei gyflenwyr yn brydlon ac mae'n cefnogi Cod Talu'n Brydlon Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Mae dadansoddiad o berfformiad talu y Cyngor yn 2004-05 yn dangos i 93 y cant o'r anfonebau (2003-2004: 83%) gael eu talu yn unol ag amodau'r contract neu, os nad oedd amodau, o fewn 30 diwrnod ar ôl i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno.

ARCHWILWYR

Caiff cyfrifon y Cyngor eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion paragraff 16(1) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

AELODAU'R CYNGOR

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad:

Cadeirydd

Yr Athro Roger Williams
(aelod o 1 - gweler isod)
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Reading

Aelodau

Yr Athro Philip Gummett
(aelod o 2 & 3 - gweler isod)
Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (o fis Mai 2004), Prif Weithredwr Dros Dro (Ebrill 2004)

Mrs Wendy Heppell
(aelod o 4 & 5 - gweler isod)
Cyfarwyddwr Menter, Chwarae Teg

Ms Eleri Wynne Jones
(aelod o 1,5 & 6 - gweler isod)
Darlithydd rhan-amser wedi ymddeol, ym Mhrifysgol Cymru, Bangor gynt

Yr Athro Gwyn Thomas
(aelod o 6 & 7 - gweler isod)
Athro'r Gymraeg wedi ymddeol, Prifysgol Cymru, Bangor

Dr Geoffrey P Thomas
(aelod o 4 & 8 - gweler isod)
Pennaeth yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg

Mrs Perminder Dhillon
(hyd mis Gorffennaf 2004)
Uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn

Mr R P V (Tim) Rees
(aelod o 4 & 8 - gweler isod)
Cyfrifydd Siartredig; cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr, Prifysgol Morgannwg
Yr Athro Syr Brian Smith
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Dr Len Arthur
(aelod o 5 & 9 - gweler isod)
Darlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Yr Athro D Garel Rhys OBE
(aelod o 8 - gweler isod)
Cyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd

Mrs Tina Stephens
(aelod o 1 & 5 - gweler isod)
Arbenigydd mewn rheolaeth a datblygiad staff; Prif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad

1. Pwyllgor Tâl;
2. Grŵp Llywio Ymestyn yn Ehangach;
3. Gweithgor Ansawdd;
4. Pwyllgor Archwilio a Risg;
5. Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol;
6. Pwyllgorau Adnoddau Dynol;
7. Grŵp Llywio Strategaeth Cyfrwng Cymraeg;

8. Panel Ailgyflunio;
9. Pwyllgor Trydedd Genhadaeth.

Aseswr a benodwyd gan Gynulliad
Cenedlaethol Cymru

Richard Davies
*Cyfarwyddwr yr Adran Addysg a Hyfforddiant,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Gellir archwilio'r gofrestr o fuddiannau'r
aelodau drwy wneud cais i Glerc y Cyngor yn
swyddfeydd y Cyngor yn Llanisien.



Yr Athro Philip Gummatt
*Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2005*

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan baragraff 16(2) o atodlen 1
i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch
1992, mae gofyn i Gyngor Cyllido
Addysg Uwch Cymru baratoi
datganiad o gyfrifon ar gyfer pob
blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail
a benderfynir gan Gynulliad
Cenedlaethol Cymru, gyda
chaniatâd y Trysorlys.

Paratoir y cyfrifon ar sail groniodol a rhaid
iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr ariannol y
Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a
gwariant a llif arian parod am y flwyddyn
ariannol.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae gofyn
i'r Cyngor:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a
gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datguddio
perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifo
addas yn gyson;

- rhoi barnau ac amcangyfrifon rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a
datguddio ac esbonio unrhyw wryadau o
bwys oddi wrth y safonau yn y datganiadau
ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail
busnes byw, oni bo'n amhriodol tybio y bydd
y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol
Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyngor
Cyllido Addysg Uwch Cymru yn Swyddog
Cyfrifo. Eglurir ei gyfrifoldebau perthnasol fel
Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb
dros sicrhau defnydd priodol a chywir o'r arian
cyhoeddus y mae'n atebol amdano a thros gadw
cofnodion addas, ym Memorandwm Swyddogion
Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad ar Reolaeth Fewnol

Hyd a lled fy nghyfrifoldeb

- 1 Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r Cyngor gyflawni ei bolisiâu, nodau ac amcanion tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau eraill yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuir i mi yn *Government Accounting*. Eglurir fy rôl a'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo CCAUC yn y Memorandwm, *The Responsibilities of an ASPB Accounting Officer*. Byddaf hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion yn Adran Addysg Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru lle adolygir y blaenoriaethau ar gyfer CCAUC a'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r corff.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

- 2 Lluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y perygl o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; felly, ni all roi ond sicrhad rhesymol ac nid sicrhad absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i ddarganfod a blaenoriaethu'r prif risgiau i gyflawni nodau, amcanion a pholisiâu CCAUC, i werthuso pa mor debygol ydyw y gwireddir y risgiau hyn, ac i'w rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd. Bu'r system rheolaeth fewnol yn ei lle yn CCAUC am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2005. Mae'r system rheolaeth fewnol yn cyd-fynd ag Arweiniad y Trysorlys.

Y gallu i ymdrin â risg

- 3 Sefydlwyd y prosesau canlynol i reoli risg o fewn CCAUC:
 - a) Adolygir y gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a bob chwarter gan y Cyngor;
 - b) mae rheolwyr unigol yn gyfrifol am asesu a rheoli'r risgiau allweddol sy'n codi o'u meysydd cyfrifoldeb hwy;
 - c) bydd Uwch Reolwyr yn adolygu ac yn diweddarau'r gofrestr risg bob chwarter;
 - d) datblygydd polisi a chanllawiau ar gyfle a risg yn 2001-02. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer staff uwch a gymerodd gyfrifoldeb wedyn dros hybu rheoli risg o fewn eu timau.

Y fframwaith risg a rheolaeth

- 4 Mae elfennau allweddol strategaeth rheoli risg CCAUC fel a ganlyn:
 - a) sefydlir amcanion CCAUC drwy baratoi ei Strategaethau Corfforaethol a'i Gynlluniau Gweithredol a gymeradwyir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
 - b) mae gan CCAUC isadran Sicrhau Risg sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC ac sydd ar gael i roi cyngor ac arweiniad i grwpiau o staff a rheolwyr unigol. Oherwydd prinder staff a gododd yn sgil gwahanu CCAUC a'r Cyngor Cenedlaethol, darparwyd gofynion archwilio mewnol CCAUC ar gyfer 2004-05 gan Bentley Jennison;
 - c) blaenoriaethir risgiau yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith a nodir camau i'w rheoli sy'n gymesur â maint y risg; a
 - d) mae'r Cyngor, a gynghorir gennyf i fel Swyddog Cyfrifo a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg drwy'r ystyriaeth reolaidd a rydd i'r gofrestr risg, yn penderfynu i ba raddau y dylid mentro.

5 Bu'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli risg drwy gydol y flwyddyn yn gysylltiedig â chyflwyno agenda ailgyflunio a chydweithio Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ymestyn yn Uwch* a rheoli materion yn ymwneud â gwahanu, o bosibl, wasanaethau CCAUC oddi wrth y Cyngor Cenedlaethol.

Adolygu effeithiolrwydd

6 Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a rheolwyr gweithredol o fewn CCAUC sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

7 Sefydlwyd y prosesau a ganlyn i adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol CCAUC:

- a) Mae gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth; seilir cynlluniau archwilio ar asesiad o risg wedi'i gysylltu â chofrestr risg y corff cyfan. Mae'r Pennaeth Sicrhau Risg yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaeth a llywodraeth CCAUC bob blwyddyn, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliannau; a
- b) goruchwylir gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor ar ddarganfyddion a chasgliadau gwaith archwilio.
- c) mae'r rheolwyr yn darparu datganiad o sicrwydd ynghylch y systemau a'r gweithdrefnau sy'n gweithredu yn eu maes cyfrifoldeb.

8 Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae angen cryfhau rheolaeth yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiad. Ym mhob achos, cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol i fynd i'r afael â'r gwendidau. Un maes a nodwyd lle mae gwendid yw gweithredu mesurau y cytunwyd arnynt. Rwyf bellach wedi cymryd cyfrifoldeb bersonol dros sicrhau y caiff y mesurau hyn eu gweithredu a thros adrodd ar y sefyllfa i'r Pwyllgor Archwilio.



Yr Athro Philip Gummert
Prif Weithredwr a
Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2005

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 50 i 67 o dan Baragraff 16(3) Atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisiau cyfrifo a nodwyd ar dudalennau 54 a 55.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 45, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny, ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, wedi eu pennu yn ôl statud ac ystyriaf y safonau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r canllawiau moesol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Rwyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny, ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r

Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 46 a 47 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Cyngor â chanllawiau'r Trysorlys ar y 'Datganiad ar Reolaeth Fewnol'. Rwyf yn nodi os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried p'un a yw Datganiad ar Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifo yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw ychwaith yn ofynnol i mi lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Cyngor na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camdatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi gan gamgymeriad, neu drwy dwyll neu anghysondeb arall a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyr

berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol yw'r modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol wrth lunio fy marn.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr busnes Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar 31 Mawrth 2005 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny;
- mae'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Awst 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Cyfrif Incwm a Gwariant am y Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2005

	Nodyn	2005		2004	
		£'000	£'000	£'000	£'000
INCWM CRYSWTH					
Cymorth grant	2(a)	372,315		350,179	
Rhyddhawyd o gronfa grant y llywodraeth	2(b)	38		45	
Incwm arall	3	18,826		16,323	
CYFANSWM INCWM			391,179		366,547
GWARIANT					
Cyllido addysg uwch:					
Gwariant rheolaidd	4	340,504		322,792	
Gwariant cyfalaf	4	14,926		13,331	
Dibenion eraill	6	31,328		27,277	
		386,758		363,400	
Gwariant y Cyngor:					
Costau gweinyddu	7	614		557	
Costau staff	8	1,476		1,591	
Dibrisiant	11	38		18	
Taliadau tybiannol - cost cyfalaf	9	244		186	
		2,372		2,352	
CYFANSWM GWARIANT			389,130		365,752
Gwarged ar weithgareddau gweithredol			2,049		795
Llog y gellir ei dderbyn	10		342		274
Addasiad am dâl tybiannol (cost cyfalaf)	9		244		186
Adfeddiannau	10		(342)		(274)
Gwarged am y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd			2,293		981
Symudiadau ar gronfeydd			2005		2004
			£'000		£'000
Gwarged a gadwyd ac a ddygwyd ymlaen			5,771		4,790
Gwarged am y flwyddyn			2,293		981
Gwarged a gadwyd ac a gariwyd ymlaen			8,064		5,771
Mae'r holl weithgareddau'n parhau.					
Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 67 yn rhan o'r cyfrifon hyn.					

Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig

Gwarged am y flwyddyn
Symudiad yng nghronfa grant y llywodraeth

Cyfanswm yr enillion a'r colledion am y flwyddyn
am y flwyddyn

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 67
yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodyn	2005 £'000	2004 £'000
2(b)	2,293	981
	47	(18)
	2,340	963

Mantolen ar 31 Mawrth 2005

Nodiadau	2005		2004	
	£'000	£'000	£'000	£'000
ASEDAU SEFYDLOG Asedau sefydlog cyffyrddadwy	11	70		23
ASEDAU CYFREDOL Dyledwyr	12	6,376	1,698	
Arian yn y banc ac mewn llaw	21	3,660	6,394	
		10,036	8,092	
CREDYDWYR Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(1,972)	(2,321)	
Asedau cyfredol net		8,064		5,771
ASEDAU NET		8,134		5,794
TALWYD AMDANO GAN:				
CYFALAF A CHRONFEYDD Cyfrif incwm a gwariant		8,064		5,771
Cronfa grant y llywodraeth	2(b)	70		23
CYFANSWM CYLLID Y LLYWODRAETH	14	8,134		5,794

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 67 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran y Cyngor



Yr Athro Philip Gummatt
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2005

Datganiad Llif Arian am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2005

	Nodiada	2005 £'000	2004 £'000
Gweithgareddau gweithredol			
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol	20	(2,696)	(335)
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid			
Llog a dderbyniwyd		330	252
Llog a ildwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		(368)	(252)
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
Taliadau i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy		(85)	(27)
All-lif arian net cyn ariannu		(2,819)	(362)
Ariannu			
Cronfa grant y llywodraeth	2	85	27
Gostyngiad mewn arian	21	(2,734)	(335)
Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 67 yn rhan o'r cyfrifon hyn.			

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Polisiâu Cyfrifo

(a) Sail y cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig ac yn unol â gofynion Deddfau Cwmnïau 1985 a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol. Caiff asedau sefydlog eu prisio ar sail cost hanesyddol ar ôl tynnu dibrisiant ac nid ydynt wedi cael eu hailbrisio gan na fyddai'r fath addasiad yn bwysig ym marn y Cyngor.

(b) Grantiau ar gyfer prosiectau Undeb Ewropeaidd (UE)

Incwm:

Bydd y Cyngor yn derbyn incwm grant yn ymwneud â phrosiectau UE o ddwy ffynhonnell. Mae incwm grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal prosiectau'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gredydu i'r cyfrif yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant. Caiff incwm yr UE i gynnal prosiectau'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r cyfrif yn y flwyddyn y telir am y gwariant.

Gwariant:

Fel y sawl sy'n gwneud cais am brosiectau Ewropeaidd ac yn contractio gyda thrydydd partïon i'w gweithredu, mae atebolrwydd y Cyngor yn codi pan dderbynnir cais dilys gan dderbynydd y grant.

(c) Cymorth grant

Derbynnir cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwariant gweithredol a gwariant cyfalaf. Lle

defnyddiwyd cymorth grant i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy, caiff y cymorth grant y gellir ei dderbyn ar gyfer gwariant cyfalaf ei gredydu i Gronfa Grant y Lywodraeth ac fe'i rhyddheir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod oes economaidd fuddiol ddisgwyliedig yr asedau sefydlog perthnasol ar sail sy'n gyson â'r polisi ar ddibrisiant.

(d) Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae derbynydd y grant yn ymgymryd â'r gweithgaredd sy'n creu hawl. Caiff grantiau rheolaidd, sef, yn bennaf, y cyllid rheolaidd a chyfalaf a ddyrennir i Sefydliadau Addysg Uwch, eu dwyn i gyfrif pan delir hwy. Ym marn y Cyngor mae'r drefn hon yn cyflawni i bob pwrpas gyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y Sefydliadau Addysg Uwch.

(e) Costau ar y cyd

Cynlluniwyd strwythur y Cyngor Addysg Uwch a'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa i gymryd i ystyriaeth bolisiau a chyfrifoldebau statudol unigol y ddau Gyngor, tra'n cydnabod bod uned weithredol ar y cyd yn cynnig ateb cost-effeithiol i ddarparu gwasanaethau proffesiynol.

Pryd bynnag y bo modd, mae costau'r Adrannau â chyd-gyfrifoldebau yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i ddatganiadau ariannol y Cyngor perthnasol. Fodd bynnag, ceir costau ar y cyd na ellir yn rhesymol eu dyrannu'n uniongyrchol i'r ddau Gyngor ac, yn dilyn adolygiad mewnlol blynyddol, fe rennir y costau hyn ar sail y gwaith a wneir ar ran y ddau Gyngor.

f) Taliadau tybiannol

Cost Cyfalaf:

Yn unol ag arweiniad Cynulliad

Cenedlaethol Cymru, mae tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd wedi cael ei gynnwys yn y costau gweithredol, wedi'i gyfrifo yn ôl 3.5% (2003-04 - 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

(g) Costau pensiwn

Mae staff blaenorol a phresennol yn dod o fewn darpariaethau trefniadau'r Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). Mae'r Cyngor yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau ei staff drwy dalu i'r trefniadau PGS symiau a gyfrifir ar sail groniadol. Mae atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn godiant ar y trefniadau PGS.

(h) Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Mae cyfarpar sy'n costio mwy na £500 ac unrhyw osodion, ffitiadau neu gyfarpar sy'n

costio mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu.

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob eitem ar sail linell syth yn ystod ei hoes fuddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Cyfarpar TG	3 blynedd
Cyfarpar trydanol	5 mlynedd
Gosodion a ffitiadau	5 mlynedd

(i) Treth Ar Werth

Gan nad yw'r Cyngor wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW briodoladwy.

(j) Prydlesau Gweithredol

Mae rhentolau prydles gweithredol yn cael eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi.

2. Cysoni cymorth grant

Mae'r nodyn canlynol yn cysoni'r symiau o arian a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel cymorth grant am y flwyddyn â'r datganiadau ariannol.

(a) Cymorth grant refeniw a dderbyniwyd

Cymorth grant a dderbyniwyd
Tynner symiau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwariant cyfalaf

(b) Cronfa grant y llywodraeth

Gweddill ar 1 Ebrill
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn
Tynner symiau a ryddhawyd i'r cyfrif
incwm a gwariant
Tynner symiau cyfalaf wedi'u hailddosbarthu fel refeniw
Gweddill ar 31 Mawrth

	2005 £'000	2004 £'000
	372,400 (85)	350,206 (27)
	372,315	350,179
	23	41
	85	27
	(38)	(18)
	-	(27)
	70	23

3. Incwm Arall

	2005 £'000	2004 £'000
Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariâu mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)	5,115	5,129
Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cronfa Datblygu Gwybodaeth	4	1,145
Undeb Ewropeaidd - Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Hen brosiectau	-	(587)
Undeb Ewropeaidd - Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Prosiectau newydd	2,156	858
Y Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg - Cronfa Is-strwythur Ymchwil Wyddonol	11,551	9,291
Erail	-	487
	18,826	16,323

(a) Derbynnir y cyllid hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w ddsbarthu yn y sector AU. Prif bwrpas y cyllid yw darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi.

4. Cyllido addysg uwch

	2005		2004	
	Rheolaidd £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Sefydliadau addysg uwch				
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	30,086	1,374	31,460	30,662
Prifysgol Cymru, Bangor	31,041	1,284	32,325	30,478
Prifysgol Caerdydd (gweler (a) isod)	96,808	2,994	99,802	83,682
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (gweler (a) isod)	7,815	195	8,010	19,048
Prifysgol Cymru Abertawe	35,834	1,468	37,302	36,134
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	5,789	375	6,164	5,986
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru	16,375	821	17,196	14,816
Prifysgol Cymru, Casnewydd	21,125	1,023	22,148	17,757
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	24,946	1,375	26,321	23,945
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	13,348	766	14,114	12,700
Coleg y Drindod Caerfyrddin	5,675	603	6,278	5,693
Prifysgol Morgannwg	42,572	2,176	44,748	43,725
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	5,057	388	5,445	5,174
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	736	-	736	679
Is-gyfanswm	337,207	14,842	352,049	330,479
Sefydliadau Addysg Bellach				
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	80	-	80	106
Coleg Sir Gâr	909	-	909	1,060
Coleg Llandrillo	1,171	-	1,171	1,192
Coleg Menai	79	-	79	110
Coleg Castell-nedd Port Talbot	127	-	127	120
Coleg Sir Benfro	5	-	5	6
Coleg Morgannwg	472	-	472	505
Coleg Abertawe	80	-	80	96
Is-gyfanswm	2,923	-	2,923	3,195
Cyrff Eraill				
HERO Ltd	33	-	33	13
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr	1,867	-	1,867	1,717
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	-	-	-	42
Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau	1,704	-	1,704	1,587
Cymdeithas Rhwydweithio Addysg ac Ymchwil y DU	25	84	109	186
KPMG LLP	-	-	-	45
OPM	-	-	-	89
Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban	(21)	-	(21)	212
Prifysgolion y DU	85	-	85	33
Canolfan Ewropeaidd Cymru	25	-	25	25
Adran Cyflogaeth a Dysgu	29	-	29	-

Education Data Surveys
Newidiem Cyf
Academi Addysg Uwch
Sefydliadau eraill
Is-gyfanswm
Cyfanswm

Tynner gwariant wedi'i gyllido gan CGE (gw. nodyn 6)
Prosiectau newydd
Cyfanswm

	2005		2004	
	Rheolaidd £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Education Data Surveys	67	-	67	-
Newidiem Cyf	69	-	69	-
Academi Addysg Uwch	200	-	200	-
Sefydliadau eraill	192	-	192	37
Is-gyfanswm	4,275	84	4,359	3,986
Cyfanswm	344,405	14,926	359,331	337,660
Tynner gwariant wedi'i gyllido gan CGE (gw. nodyn 6)				
Prosiectau newydd	(3,901)	-	(3,901)	(1,537)
Cyfanswm	340,504	14,926	355,430	336,123

Ni chynhwysir unrhyw daliadau ar gyfer hen brosiectau CGE neu KEF yn y ffigurau uchod. Fe'u datgelir yn nodyn 6 yn unig. (a) Ymglymodd y ddau sefydliad hwn mewn cytundeb cyfreithiol i ymgymryd â gweithgareddau ar y cyd o 1 Awst 2004 a chyfunwyd y cyllid o'r dyddiad hwnnw. Cyfunont yn ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2004.

5. Grantiau i sefydliadau

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys grantiau i sefydliadau, sy'n cael eu harchwilio gan archwilyr allanol y derbynwyr er mwyn dangos i'r grantiau gael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae blwyddyn ariannol sefydliadau addysg uwch yn gorffen ar 31 Gorffennaf ac mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 31 Rhagfyr. Mae adolygiad gan staff y Cyngor o ddatganiadau ariannol 2003/04 y sefydliadau wedi dangos bod yr archwilyr allanol yn ystyried i'r grantiau gael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac nad oedd

angen unrhyw addasiadau i'r grantiau. Yn ogystal, nid arweiniodd yr archwiliad o nifer y myfyrwyr a wnaed yn yr haf 2004 at unrhyw addasiadau o bwys. Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o archwilio cyfrifon y sefydliadau a nifer y myfyrwyr yn 2004/2005 yn cael eu gwneud gan y Cyngor yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau i grantiau a dderbyniodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu defnyddio at y pwrpasau a gymeradwywyd.

6. Gwariant at ddibenion eraill

Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariau
mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)
Cronfa Datblygu Gwybodaeth (b)
Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Hen brosiectau
Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Prosiectau newydd
Cronfa Is-strwythur Ymchwil Wyddonol

	2005 £'000	2004 £'000
Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariau mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)	5,115	5,129
Cronfa Datblygu Gwybodaeth (b)	4	1,145
Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Hen brosiectau	-	(587)
Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Prosiectau newydd	3,901	1,537
Cronfa Is-strwythur Ymchwil Wyddonol	22,308	20,053
	31,328	27,277

(a) Mae'r gwariant hwn yn ymwneud ag arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at bwrpas darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi.

(b) Cynhelir archwiliadau ar wahân o'r symiau'n ymwneud â'r taliadau grant a wneir o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) a'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF). Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o'r archwiliadau hyn yn cael eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

7. Costau gweinyddu

	2005 £'000	2004 £'000
Costau adeiladau	155	155
Costau swyddfa	143	163
Gwasanaethau prynu i mewn	94	58
Tâl archwilyr - Ffi archwilio flynyddol CCAUC	16	13
Tâl archwilyr - Gwaith adroddiad sicrhau ychwanegol	3	3
Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor	11	20
Costau teithio a chynhaliaeth staff	39	43
Gwariant yn gysylltiedig â staff ar hyfforddiant ac ati	124	80
Costau technoleg gwybodaeth	29	22
	614	557

8. Costau Staff

	2005			2004		
	Staff £'000	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr) £'000	Cyfanswm £'000	Staff £'000	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr) £'000	Cyfanswm £'000
(a) Dadansoddiad						
Cyflogau	1,316	140	1,456	1,260	177	1,437
Costau nawdd cymdeithasol	88	12	100	90	14	104
Costau pensiwn eraill	143	17	160	163	15	178
Cyfanswm costau'r gyflogres	1,547	169	1,716	1,513	206	1,719
Tynner costau a roddwyd o dan gostau rheolaidd rhaglenni	(240)	-	(240)	(128)	-	(128)
Costau cyflogres gweinyddol	1,307	169	1,476	1,385	206	1,591

Yn y cyfrifon a gyhoeddwyd ar gyfer 2003-04, rhoddwyd costau staff dros dro fel eitem ar wahân o fewn costau staff. Nawr fe'i rhoddir o fewn 'cyflogau' uchod, ac addaswyd ffigurau'r llynedd yn unol â hynny.

(b) Datguddiadau cyflog a pensiwn

Swydd	Enw	Cyflog	Cynnydd real mewn Pensiwn a Lwmpswm	Pensiwn ar 31/03/05 a Lwmpswm	GTCA ar 01/04/04	GTCA ar 31/03/05	Cynnydd real mewn GTCA fel y'i cyllidwyd gan y cyflogwr
		£	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cadeirydd	Roger Williams	14,400	D/B	D/B	D/B	D/B	D/B
Prif Weithredwr (o fis Mai 2004) (Prif Weithredwr Dros Dro gynt)	Philip Gummett	93,418	0 - 2.5 a lwmpswm 5 - 7.5	5 - 10 a lwmpswm 15 - 20	64	97	29
Cyfarwyddwr Cyllid	Richard Hirst	71,617	0 - 2.5	30 - 35	353	377	1
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Mai 2004 - Ionawr 2005)	Jo Thorne	56,070	0 - 2.5	0 - 5	0	9	7

Cynhwyswyd cyflog y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn y cyfrifon hyn (nodyn 8(a)), yn unol â'r sail penodi a nodir yn nodyn 1(e).

Mae Richard Hirst a Jo Thorne yn aelodau o'r cynllun buddion diffiniedig Premium, rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid yw buddion y cynllun yn cynnwys talu lwmpswm awtomatig ar ymddeoliad (gweler hefyd nodyn 8(c)).

Mae gan y Prif Weithredwr gytundeb parhaol ac mae'n aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Nid yw'r Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac ni dderbyniant unrhyw fuddion pensiwn y telir amdanynt gan CCAUC. Bydd Aelodau'r Cyngor (heb gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr) yn derbyn cyflog amhensiynadwy o £4,500 y flwyddyn. Cyflogau crynswth yw'r holl gyflogau a ddangosir, gan na dderbyniodd Aelodau'r Cyngor na'r staff uwch unrhyw daliadau eraill na buddion ar ffurf nwyddau, heblaw am y rheiny a ddatguddir isod.

(c) Pensiynau

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ond ni all CCAUC bennu ei gyfran o'r asedau a dyledion gwaelodol. Prisiodd actwari'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2003. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnodd Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Yn 2004-05, roedd cyfraniadau cyflogwr o £160,327 yn daladwy i PGPGS (2003-04 £177,665) ar un o'r pedair cyfradd yn yr amrediad 12 i 18.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu hadolygu gan Actwari'r cynllun bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2005-06, caiff y bandiau cyflog eu hadolygu a bydd y cyfraddau mewn amrediad rhwng 16.2% a 24.6%. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid yr adeg pan eir i gostau mewn gwirionedd, ac adlewyrchant brofiad blaenorol o'r cynllun.

Darperir buddion pensiwn drwy'r trefniadau Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddion diffiniedig 'cyflog terfynol' statudol-seiliedig (classic, premium a classic plus). Mae'r cynlluniau heb eu cyllido a thelir am gost buddion drwy arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium a classic plus eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall staff newydd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o gynllun Premium neu ymuno â threfniant rhanddeiliaid 'pensiwn a brynir' o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Gosodir cyfraniadau staff ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer Classic a 3.5% ar gyfer Premium a Classic Plus. Mae buddion y cynllun Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, telir lwmpswm sy'n gyferwrth â thair blynedd o bensiwn ar ymddeoliad. Yn achos y cynllun Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Classic, nid oes lwmpswm awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu lwmpswm). Amrywiad ar y cynllun Premium yw Classic Plus i bob pwrpas, ond gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel ar gyfer y cynllun Classic.

Trefniant tebyg i bensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan yr aelod staff. Nid oes angen i'r aelod staff gyfrannu, ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% ar y mwyaf o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o gyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau PGS ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyferwrth Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyferwrth Arian (GTCA) yw gwerth cyfalafedig y buddion cynllun pensiwn, wedi'i asesu gan actiwari, a gronnyd gan aelod neilltuol ar adeg neilltuol mewn amser. Y buddion a brisir yw buddion croniedig yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy o'r cynllun i briod. Mae GTCA yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant pensiwn arall pan yw'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnyd yn ei gynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn o'r cychwyn cyntaf, nid yn unig â'i wasanaeth mewn swydd uwch y mae datguddio yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau GTCA ac, o 2003-04, y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau PGS ac y mae'r Bleidlais Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo ar ei gyfer sy'n gymesur â'r ymrwymadau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo. Maent hwy hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir y GTCA o fewn y canllawiau a'r fframwaith a benwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

Cynnydd real mewn GTCA

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCA a gyllidir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn croniedig o ganlyniad i chwyddiant, a chyfraniadau a delir gan yr aelod o staff (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

(d) Nifer Cyfartalog o Staff a Gyflogwyd Ar gyfartaledd, cyflogodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 41 o staff cyfwerth ag amser-llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2005, fel a ganlyn:

	2005 Nifer	2004 Nifer
Uwch Reolwyr	2	3
Cyfarwyddiaeth Addysg Uwch	26	25
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol	8	7
Cyfarwyddiaeth Cyllid a Risg	5	4
	41	39

9. Taliadau tybiannol

Cost cyfalaf - 3.5 % (2004 - 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd

	2005 £'000	2004 £'000
	244	186

10. Adfeddiannau

Derbyniadau y gellir eu hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:
Llog banc

	2005 £'000	2004 £'000
	342	274

11. Asedau sefydlog cyffyrddadwy

	Cyfarpar TG £'000	Gosodion a Ffitiadau £'000	Cyfarpar Trydanol £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2004	159	216	39	414
Ychwanegiadau	56	-	29	85
Ar 31 Mawrth 2005	215	216	68	499
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2004	137	216	38	391
Codwyd yn ystod y flwyddyn	32	-	6	38
Ar 31 Mawrth 2005	169	216	44	429
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2005	46	-	24	70
Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2004	22	-	1	23

12. Dyledwyr

	2005 £'000	2004 £'000
Dyledwyr masnach	62	-
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	590	187
Gweddillion gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	614	924
Dyledwyr eraill (a)	5,110	587
	6,376	1,698

(a) Mae hyn yn cynnwys swm o £160k y gellir ei adennill gan sefydliadau AU (gweler nodyn 6) (2004 - £587 mil). Mae hefyd yn cynnwys benthyciad di-log o £4.95 miliwn i Brifysgol Cymru Abertawe fel cyllid ymlaen llaw i dalu am brynu cyfrifiadur tra phwerus sy'n rhan o Brosiect Gwyddor Bywyd PC Abertawe. Nid oedd cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y prosiect hwn ar gael i PC Abertawe nes dechrau blwyddyn ariannol newydd y Cynulliad ym mis Ebrill 2005. Rhoddwyd y benthyciad gyda chaniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i ad-dalwyd mewn dau randaliad ym mis Ebrill a Mai 2005.

13. Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

	2005 £'000	2004 £'000
Credydwyr masnach	-	27
Croniadau	1,365	709
Gweddillion gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	607	1,585
	1,972	2,321

14. Cysoni symudiadau yng nghyllid y llywodraeth

	2005 £'000	2004 £'000
Gwarged a gadwyd am y flwyddyn	2,293	981
Symudiad ar gronfa grant y llywodraeth	47	(18)
Symudiad yng nghyllid y llywodraeth	2,340	963
Cyllid y llywodraeth ar 1 Ebrill	5,794	4,831
Cyllid y llywodraeth ar 31 Mawrth	8,134	5,794

15. Rhwymedigaethau prydles

	2005 £'000	2004 £'000
Symiau a godwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant am rentolion prydles gweithredol mewn perthynas ag adeiladau	69	69
Ymrwymiad blynyddol ar brydlesau yn dod i ben o fewn:		
Un flwyddyn	-	-
Dwy i bum mlynedd	69	69
Dros bum mlynedd	-	-

16. Ymrwymadau cyfalaf

	2005 £'000	2004 £'000
Contractiwyd	-	-

17. Ymrwymadau ariannol

	2005 £'000	2004 £'000
Grantiau refeniw (a)	132,696	129,704
Prosiectau Ewropeaidd (b)	261	4,325
	132,957	134,029

(a) Caiff y swm hwn ei gyllido drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

(b) Caiff prosiectau Ewropeaidd eu cyllido fel a ganlyn:

	2005 £'000	2004 £'000
Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	100	2,737
Cymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	161	1,588
	261	4,325

Mae gan y prosiectau Ewropeaidd ymrwymadau ariannol o £186k hefyd a gaiff eu cyllido gan gyfraniadau cyllid cyfatebol allanol gan sefydliadau Addysg Uwch a mentrau bach a chanolig.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd cam dau yn y prosiectau Ewropeaidd presennol yn amodol ar gymeradwyaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac felly ni ellir dadlennu unrhyw ymrwymadau penodol yn y cyfrifon hyn.

18. Colledion a thaliadau arbennig

	2005	2004
Dyledion drwg	-	227
Taliadau ofer	603	1,526
	603	1,753

19. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bartïon cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CCAUC wedi cael amryw o drafodion o bwys â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac â phartïon eraill yr ystyrir mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw eu Hadran noddi, sef: CCCAH.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor a'r uwch reolwyr canlynol wedi ymgymryd â chysylltiadau neu drafodion sy'n cael eu hystyried yn bartïon cysylltiedig, fel y dangosir yn y tabl isod: -

Enw

Dr Len Arthur (aelod o'r Cyngor)

Cysylltiad

- Uwch Ddarlithydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Chyfarwyddwr Ymchwil a Menter Ysgol Fusnes APCC: Aelod o Fwrdd Academaidd APCC.
- Aelod Gweithredol o Gyngor Rhanbarth Cymru NATFHE (Cymdeithas Genedlaethol yr Athrawon Addysg Bellach ac Uwch).
- Aelod o Academi Addysg Uwch.
- Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr, Promo-Cymru Ltd.
- Merch, Swyddog Gweithredol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Mab yng nghyfraith, Uwch Archwiliwr Patentau, Y Swyddfa Batent, Casnewydd - ar secondiad i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mr RPV (Tim) Rees (aelod o'r Cyngor)

- PricewaterhouseCoopers, yn derbyn pensiwn.
- Aelod Annibynnol, Panel Archwilio'r Cyngor, Dinas a Sir Caerdydd.
- Trysorydd, Urdd Sant Ioan Cymru.
- Is-Gadeirydd, Pwyllgor Buddsoddi, Corff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru.
- Aelod o'r Panel, Cynllun lawndal, Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru.
- Llywodraethwr, Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Yr Athro Syr Brian Smith (aelod o'r Cyngor)

- Aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr, Prifysgol Morgannwg.
- Cyfarwyddwr Higher Aims Limited.
- Llysgennad i Brifysgol Caerdydd
- Is-gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Cymdeithas Prifysgol Rhydychen.
- Aelod o'r Bwrdd, Gŵyl Ryngwladol Theatr Gerddorol, Caerdydd

Enw

Mrs Tina Stephens (aelod o'r Cyngor)

Cysylltiad

- Cynrychiolydd Gogledd Cymru ar Gyngor Rheoli Cymru
- Aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ysgol Fancio a Datblygiad Rhanbarthol yn PC Bangor

Yr Athro Gwyn Thomas (aelod o'r Cyngor)

- Merch yn gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mrs Wendy Heppell (aelod o'r Cyngor)

- Cyfarwyddwr Menter, Chwarae Teg & goruchwyllo prosiect ymchwil gyda PC Llanbedr Pont Steffan.
- Aelod, Cymdeithas Frenhinol Cemeg.
- Cyfarwyddwr Business West, sydd â pherthynas uniongyrchol â Phrifysgol Bryste a Phrifysgol Gorllewin Lloegr.
- Partner yn Knowledge West, consortiwm gyda 6 Sefydliad Addysg Uwch yng Ngorllewin Lloegr.
- Gŵr yn fyfyrwr yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd.
- Aelod, Pwyllgor Bwrsariau, Coleg y Brifysgol, Rhydychen.

Yr Athro D Garel Rhys, OBE (aelod o'r Cyngor)

- Cadeirydd, Panel Cyngori ar Ymchwil Economaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Aelod o Fwrdd Datblygu'r Diwydiant Rasio Modur yr Adran Masnach a Diwydiant.
- Merch yng nghyfraith, Darlithydd, Prifysgol Cymru, Casnewydd.

Yr Athro Philip Gummett (Prif Weithredwr)

- Aelod o'r Athrofa Dysgu ac Addysgu, sydd bellach yn rhan o'r Academi Addysg Uwch.
- Gwraig, tiwtor rhan-amser yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe.
- Brawd, myfyriwr rhan-amser yn PC Llanbedr Pont Steffan.

Mr Richard Hirst (Cyfarwyddwr Cyllid a Risg)

- Cyfarwyddwr Higher Education and Research Opportunities (HERO) Limited.

Manylir ar y cyllid a ddyrennir i'r sefydliadau a'r cyrff uchod yn nodyn 4; fel arall, ni thalwyd unrhyw arian yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r un o'r staff rheoli allweddol na phartion cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

20. Cysoni'r gwarged am y flwyddyn â'r (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol

	2005 £'000	2004 £'000
Gwarged gweithredol (cyn ariannu ac adfeddiannau)	2,049	795
Taliadau dibrisiant	38	18
Asedau sefydlog wedi'u hailddosbarthu	-	27
Swm a ryddhawyd o gronfa grant ohiriedig y llywodraeth	(38)	(45)
Tâl tybiannol - cost cyfalaf	244	186
(Cynnydd) mewn dyledwyr	(4,666)	(1,175)
(Gostyngiad) mewn credydwyr	(323)	(141)
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredol	(2,696)	(335)

21. Cysoni llifiau arian net â symudiadau mewn cyllid net

(Gostyngiad) mewn arian
Cyllid net ar 1 Ebrill
Cyllid net ar 31 Mawrth

Dadansoddiad o gyllid net:
Arian yn y banc ac mewn llaw

	2005 £'000	2004 £'000
	(2,734)	(335)
	6,394	6,729
	3,660	6,394
	3,660	6,394

22. Trosglwyddo'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth

Ym mis Mai 2003, gofynnodd Gweinidog Cynulliad Cymru dros Ddatblygu Economaidd i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) gymryd cyfrifoldeb dros y Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF), cronfa a sefydlwyd i hybu entrepreneuriaeth ar arloesedd mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Roedd y gronfa hon yn cael ei rheoli cyn hyn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.

Trosglwyddwyd y gronfa ar 14 Ionawr 2004, ar adeg pan oedd Cam 1 o'r rhaglen KEF bron wedi'i gwblhau. Felly daeth y WDA a'r ddau Gyngor i gytundeb ar reoli Cam 1. O dan y cytundeb hwn, mae'r WDA yn gweinyddu'r elfennau o Gam 1 sy'n weddill ar ran y Cynghorau hyd

nes iddo gael ei gwblhau, er mai Swyddogion Cyfrifo y Cynghorau sy'n gyfrifol yn y pen draw am Gam 1. O ddyddiad y trosglwyddo, daeth y WDA yn gyfan gwbl gyfrifol am weithredu, cyflwyno a chwblhau Cam 2.

O ganlyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb, mae gofyn i'r Cynghorau dalu i'r WDA arian Ewropeaidd a oedd gynt yn cael ei ddal gan y ddau Gyngor. Bwriad y pecyn cyllido hwn oedd talu am yr holl ymrwymadau KEF yr oedd y ddau Gyngor eisoes wedi ymgymryd â hwy, a oedd yn dal ar y gweill hyd 31 Mawrth 2004. Os bydd unrhyw ddiffyg, bydd y Cynghorau yn digolledu'r WDA ac felly mae yna atebolrwydd yn ôl digwyddiad na ellir ei feintio. Dyma oedd y sefyllfa o hyd ar 31 Mawrth 2005.

23. Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei ofynion arian parod ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo chwaith unrhyw adneuon o bwys ac mae pob ased a dyled o bwys mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu arian cyfred.